RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
101/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:
31/10/2023

# Adolygiad o Sail Dystiolaeth y Sector Diwylliant yng Nghymru

## Adroddiad Cam 2

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron

ISBN Digidol 978-1-83504-942-6

Teitl: Adolygiad o Sail Dystiolaeth y Sector Diwylliant yng Nghymru

Is-deitl: Adroddiad Cam 2

Adroddiad gan:

alma economics

Adroddiad Ymchwil Llawn: Alma Economics (2023). *Adolygiad o Sail Dystiolaeth y Sector Diwylliant yng Nghymru - Adroddiad Cam 2*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 101/2023
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/adolygiad-o-sail-dystiolaeth-y-sector-diwylliant-yng-nghymru

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag:

Is-adran Ddiwylliant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: diwylliantchwaraeon@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr tablau....................................................................................................................2
1. Cyflwyniad......................................................................................................................4
2. Gweithlu ........................................................................................................................7
3. Defnyddwyr / Ymwelwyr / Mynychwyr .........................................................................22
4. Sefydliadau ...................................................................................................................37
5. Blaenoriaethau Polisi.....................................................................................................45
6. Bylchau a chyfyngiadau tystiolaeth ..............................................................................66

**Rhestr tablau**

Tabl 2.1: Codau SIC07 sectorau diwylliannol DCMS. ........................................................7
Tabl 2.2: Nifer y swyddi wedi'u llenwi fesul is-sector diwylliannol. ........................................8
Tabl 2.3: Gwirfoddolwyr amgueddfa a staff cyflogedig yn ôl math o amgueddfa, 2018/19. . 10
Tabl 2.4: Gwirfoddolwyr amgueddfa a staff cyflogedig dros y blynyddoedd. ........................ 11
Tabl 2.5: Lefel staffio llyfrgell a dangosyddion cymhwyster, 2019/20. .................................. 13
Tabl 2.6: Dosbarthiad gweithwyr llyfrgell ar draws bandiau cyflog, 2014/15 ........................ 14
Tabl 2.7: Dosbarthiad gweithwyr llyfrgell ar draws statws swyddi, 2014/15 ......................... 15
Tabl 2.9: Dosbarthiad gweithwyr archifau ar draws statws swyddi, 2014/15. ....................... 18
Tabl 2.10: Nifer y gweithwyr, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr yn sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru. ....................................................................................... 20
Tabl 3.1: Canran yr ymatebwyr sydd wedi defnyddio/ymweld/mynychu amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau, treftadaeth a'r celfyddydau yn y flwyddyn flaenorol. ............ 23
Tabl 3.2: Ymweliadau llyfrgell, ymweliadau rhithwir a benthycwyr gweithredol yn ôl 1,000 o boblogaeth breswyl fesul awdurdod lleol, 2019/20. .................................................. 27
Tabl 3.3: Rhesymau dros ymweld â'r archifau, 2022. ......................................................... 29
Tabl 3.4: Dosbarthiad defnyddwyr archifau yn ôl rhyw ac oedran, 2022. ............................. 29
Tabl 3.5: Cyfanswm nifer yr ymwelwyr â safleoedd treftadaeth wedi'u staffio gan Cadw. ... 31
Tabl 3.6: Dosbarthiad ymwelwyr treftadaeth tymor brig yn ôl oedran ac ardal breswyl. ....... 32
Tabl 3.7: Dosbarthiad ymwelwyr treftadaeth tymor ysgwydd yn ôl oedran ac ardal breswyl. ........................................................................................................................... 33
Tabl 3.8: Mynychu digwyddiadau celfyddydol unwaith neu fwy mewn blwyddyn benodol ... 34
Tabl 3.9: Cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach rhwng 2010 a 2020 ........................................................................................... 35
Tabl 4.1: Nifer yr amgueddfeydd achrededig fesul awdurdod lleol, 2021. ............................ 38
Tabl 4.2: Nifer y llyfrgelloedd cyhoeddus fesul awdurdod lleol, 2023. .................................. 39
Tabl 4.3: Nifer yr archifau fesul awdurdod lleol, 2023. ........................................................ 40
Tabl 4.4: Nifer safleoedd treftadaeth Cadw fesul awdurdod lleol, 2023 ............................... 41
Tabl 4.5: Nifer y cwmnïau yn y sector 'Cerddoriaeth, perfformio a'r celfyddydau gweledol' fesul awdurdod lleol, 2023. ........................................................................... 42
Tabl 5.1: Nifer y dyfeisiau mewn llyfrgelloedd sy'n rhoi mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd fesul 10,000 o'r boblogaeth fesul awdurdod lleol, 2019/20. .................................... 47

Tabl 5.2: Nifer a chanran y sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru sy'n defnyddio platfformau cyfryngau cymdeithasol, 2021/22. ....................................................48
Tabl 5.3: Cyfanswm dosbarthiad adnoddau yn y Gymraeg yn ôl 1,000 o boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg fesul awdurdod lleol, 2019/20. ............................................50
Tabl 5.4: Nifer y digwyddiadau a sesiynau cyfranogol gan sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru a gynhaliwyd yn Gymraeg a chyfranogwyr perthynol..................................51
Tabl 5.5: Canran y gweithwyr, gwirfoddolwyr ac aelodau bwrdd sy'n siarad Cymraeg yn sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru...............................................................52
Tabl 5.6: Agweddau at y celfyddydau a diwylliant: yr ymatebwyr yn cytuno â set o ddatganiadau, 2021/22.................................................................................................53
Tabl 5.7: Effaith llyfrgelloedd ar lesiant oedolion a phlant – ystadegau disgrifiadol o ganlyniadau arolygon, 2019/20. .......................................................................................55
Tabl 5.8: GYC Cymru fesul is-sector diwylliannol, wedi'i fynegi mewn £ miliwn..................56
Tabl 5.9: Canran yr ymatebwyr sy'n ymwneud â'r celfyddydau a diwylliant ar draws cwintelau'r MALIC, fesul is-sector diwylliannol, 2021/22. .......................................59
Tabl 5.10:Nifer a chyfran y perfformiadau mewn lleoliadau cyflwyno sy'n targedu grwpiau nodweddion gwarchodedig..............................................................................................61
Tabl 5.11: Cyfran y gweithwyr ac aelodau bwrdd sy'n perthyn i grwpiau nodweddion gwarchodedig. ...............................................................................................................62
Tabl 5.12: Canran y digwyddiadau a sesiynau cyfranogol sydd wedi'u hanelu at ymgysylltu â phobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, fesul math o ddigwyddiad neu sesiwn gyfranogol. ...................................................................................................................64
Tabl 5.13: Cyfran o weithwyr ac aelodau bwrdd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. .............64
Tabl 5.14: Cyfran o ymwelwyr treftadaeth heb fod yn wyn yn ystod y tymor brig ac ysgwydd. ..........................................................................................................................65

# 1. Cyflwyniad

## Cefndir

1.1 Mae'r Cytundeb Cydweithredu[1] a'r Rhaglen Lywodraethu wedi'i diweddaru[2] wedi ymrwymo i ddatblygu Strategaeth Ddiwylliant newydd i Gymru. Bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar gefnogi a datblygu sectorau'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth, gan gynnwys rôl diwylliant wrth hybu iechyd a llesiant cadarnhaol, dysgu gydol oes a sgiliau, cefnogi datblygiadau digidol yng Nghymru, yr economi ymwelwyr, a'r iaith Gymraeg, ynghyd ag adeiladu cydnerthedd i alluogi adferiad effeithiol o'r pandemig Covid-19 a chyflawni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[3].

1.2 Er mwyn datblygu Strategaeth Ddiwylliant newydd i Gymru, mae'n bwysig bod llunwyr polisi a rhanddeiliaid yn gallu cael gafael ar ddata ar faint, cyfansoddiad ac effaith y sector diwylliant. I gefnogi hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Alma Economics i adolygu a mapio argaeledd data a thystiolaeth am y sector diwylliant yng Nghymru. Bydd yn cynnwys nodi ac asesu ffynonellau presennol a bylchau tystiolaeth mewn gwybodaeth ar draws meysydd diwylliannol o ddiddordeb gan gynnwys Amgueddfeydd, y Celfyddydau, Llyfrgelloedd, Archifau a Threftadaeth.

1.3 Strwythurir yr adolygiad hwn ar draws dau gam. Cynhaliodd cam cyntaf y gwaith ('Cam 1') adolygiad cychwynnol o ddata a thystiolaeth bresennol ar y sector diwylliant ac is-sectorau priodol. Roedd hefyd yn cynnwys ymgysylltu â swyddogion polisi Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i ddeall cwestiynau ymchwil allweddol y dylid mynd i'r afael â nhw yn ail gam y gwaith ('Cam 2'), yn ymwneud yn benodol â chwmpas a strwythur yr adolygiad o ddata a thystiolaeth.

## Cwmpas yr adroddiad hwn

1.4 Daeth Cam 1 i ben yn Ebrill 2023 a chanfuwyd, er bod data ar y sector diwylliant yn bodoli, ei fod weithiau'n anghyflawn, yn cael ei adrodd yn anghyson, heb ei gasglu'n ddigon aml ac nad yw'n ymdrin â'r holl bynciau a allai fod o gymorth i lunwyr polisi.

---

[1] Y Cytundeb Cydweithio | LLYW.CYMRU
[2] Rhaglen lywodraethu: diweddariad | LLYW.CYMRU
[3] Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | LLYW.CYMRU

Fel casgliad, nododd Cam 1 dri argymhelliad ar gyfer cwmpas Cam 2 yr adolygiad, fel a ganlyn:

1. **Cynnal adolygiad a mapio data a thystiolaeth** yn erbyn pynciau allweddol o ddiddordeb i gefnogi llunio polisïau ar sail tystiolaeth. Mae hyn yn seiliedig ar y canfyddiadau bod llunwyr polisi am gael gwell dealltwriaeth o faint a chyfansoddiad y sector diwylliant ac is-sectorau, yn enwedig o ran:
    - Defnyddwyr / ymwelwyr / mynychwyr
    - Gweithlu
    - Sefydliadau

   Dylid hefyd archwilio cyfraniad y sector diwylliant ac is-sectorau at flaenoriaethau polisi ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:
    - Effaith amgylcheddol a datgarboneiddio
    - Sgiliau digideiddio a digidol
    - Yr iaith Gymraeg
    - Effeithiau ar lesiant
    - Cyfraniad i economïau lleol
    - Hyrwyddo amrywiaeth/cynhwysiant ac ymgysylltu a chyfranogiad grwpiau nodweddion gwarchodedig
    - Cynrychiolaeth Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
    - Prawfesur cefn gwlad
2. **Nodi'r prif fylchau data a thystiolaeth** ar draws y pynciau allweddol o ddiddordeb a restrir uchod, i gefnogi'r gwaith o flaenoriaethu a chynllunio gweithgareddau ymchwil yn y dyfodol.
3. **Darparu trosolwg ystadegol** o'r sector diwylliant ac is-sectorau ar draws y pynciau allweddol o ddiddordeb a restrir uchod.

1.5 Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ganfyddiadau Cam 2 mewn perthynas â'r argymhellion uchod. Mae’r adroddiad hwn yn trafod yn benodol allbynnau’r ail a’r trydydd argymhelliad drwy ddarparu trosolwg ystadegol o’r sector diwylliant ac is-

sectorau a nodi bylchau data a thystiolaeth allweddol. Mae'r allbynnau hyn yn seiliedig ar fapio'r sylfaen dystiolaeth, fel yr amlinellwyd yn yr argymhelliad cyntaf.

1.6 Strwythurir gweddill yr adroddiad hwn fel a ganlyn. Mae Adrannau 3 i 6 yn darparu trosolwg ystadegol o'r sector diwylliant ym mhob un o'r pynciau o ddiddordeb a nodwyd yng Ngham 1. Yn benodol, caiff ei strwythuro fel hyn:

- **Adran 2**: Trosolwg ystadegol o weithlu'r sector diwylliant.
- **Adran 3**: Trosolwg ystadegol o'r sector diwylliant o ran ei ymwelwyr, defnyddwyr a mynychwyr.
- **Adran 4**: Trosolwg ystadegol o sefydliadau'r sector diwylliant.
- **Adran 5**:Trosolwg ystadegol o'r sector diwylliant yn erbyn blaenoriaethau polisi allweddol.
- **Adran 7**: Bylchau allweddol a chyfyngiadau data a thystiolaeth sydd ar gael.

## 2. Gweithlu

2.1 Mae’r adran hon yn crynhoi’r dystiolaeth sydd ar gael am weithlu’r sector diwylliant yng Nghymru.

2.2 Mae’r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn rhyddhau ystadegau gweithlu o bryd i’w gilydd ar y sectorau sy’n dod o dan ei chylch gwaith, fel rhan o gyfres Amcangyfrif Economaidd Sectorau DCMS[4]. Mae data cyflogaeth Cymru ar gael ar gyfer y pum is-sector o fewn cwmpas yr adolygiad hwn, a nodir gan y codau dosbarthu diwydiannol safonol (SIC07) canlynol[5]:

**Tabl 2.1: Codau SIC07 sectorau diwylliannol DCMS.**

| Sectorau diwylliannol DCMS | Cod SIC07 | Disgrifiad cod SIC07 |
|---|---|---|
| Celfyddydau | 9001 | Celfyddydau perfformio |
| | 9002 | Gweithgareddau cefnogol i’r celfyddydau perfformio |
| | 9003 | Creu artistig |
| | 9004 | Gweithredu cyfleusterau celfyddydol |
| Llyfrgelloedd ac archifau[6] | 9101 | Gweithgareddau llyfrgelloedd ac archifau |
| Amgueddfeydd ac orielau | 9102 | Gweithgareddau amgueddfeydd |
| Gweithredu safleoedd hanesyddol ac atyniadau tebyg i ymwelwyr | 9103 | Gweithredu safleoedd hanesyddol ac atyniadau tebyg i ymwelwyr |

Ffynhonnell: Amcangyfrifon Economaidd Sector DCMS

2.3 Caiff cyflogaeth ei mesur yn ôl nifer y swyddi sydd wedi'u llenwi, gan gynnwys swyddi cyflogedig a hunangyflogedig. Pennir is-sector y mae sefydliad yn cael ei ddosbarthu iddo yn ôl ei brif weithgaredd economaidd. Felly, bydd yr holl weithwyr

[4]Ar gael yn: DCMS Sectors Economic Estimates - GOV.UK
[5]Mae codau SIC07, neu godau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol 2007, yn system hierarchaidd a ddefnyddir yn y DU i ddosbarthu busnesau ar sail eu prif weithgarwch economaidd. Maent yn darparu ffordd safonol o gategoreiddio a chymharu cwmnïau ar draws gwahanol sectorau, gan hwyluso dadansoddi data ac adrodd.
[6]Mae codau SIC07 yn cynnwys dynodwr rhifiadol pum digid sy'n cyfateb i is-sector penodol. Fodd bynnag, mae lefel gronynnedd ystadegau DCMS wedi'i chyfyngu i'r pedwerydd digid. Ar y lefel hon o ronynnedd, caiff yr is-sectorau llyfrgelloedd ac archifau eu cronni. Mae'r ffigurau a ddarparwyd felly yn cynrychioli cyfanswm cyfunol y ddau is-sector.

sy'n gweithio i'r sefydliad hwnnw yn cael eu dosbarthu fel rhai sy'n perthyn i'r is-sector hwnnw, waeth beth fo'u galwedigaeth. Er enghraifft, byddai cyfrifydd mewn cwmni celfyddydau perfformio yn cael ei gyfrif yn gyflogedig yn sector y celfyddydau, er nad yw'r alwedigaeth yn ymwneud yn gyfan gwbl â chynhyrchu artistig.

2.4 Daw data cyflogaeth yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o'r Arolwg o'r Llafurlu (LFS), sy'n bwydo i'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS). Mae data LFS a GSC yn dibynnu ar hunan-adrodd gan unigolion, sy'n caniatáu cynnwys galwedigaethau sylfaenol ac eilaidd, yn wahanol i ddata cyflogaeth sy'n deillio o ffurflenni busnes. Mae hyn yn arbennig o werthfawr o ran cofnodi cyfraniad unigolion sy'n ymwneud â swyddi rhan-amser, gwaith llawrydd, neu gyflogaeth eilaidd arall ochr yn ochr â'u prif alwedigaeth.

2.5 Noda'r tabl isod y nifer o swyddi wedi'u llenwi ym mhob sector diwylliannol DCMS dros yr 11 mlynedd diwethaf.

**Tabl 2.2: Nifer y swyddi wedi'u llenwi fesul is-sector diwylliannol[7].**

| Blwyddyn | Celfyddydau | Amgueddfeydd ac orielau | Llyfrgelloedd ac archifau | Gweithredu safleoedd hanesyddol ac atyniadau tebyg i ymwelwyr |
|---|---|---|---|---|
| 2022[8] | 10,506 | 1,479 | 2,583 | c |
| 2021 | 9,253 | 715 | 1,975 | c |
| 2020 | 8,069 | 2,073 | 3,609 | c |
| 2019 | 9,910 | 1,619 | 1,950 | c |
| 2018 | 11,575 | 1,774 | 1,886 | 356 |
| 2017 | 8,077 | 1,948 | 1,922 | 507 |
| 2016 | 8,630 | 1,932 | 1,808 | c |
| 2015 | 11,429 | 1,589 | 2,079 | c |

[7] Mae'r llaw fer 'c' yn dynodi data sydd wedi'i atal er mwyn rhwystro datgelu gwybodaeth ymatebwyr.
[8] Mae'r data mwyaf diweddar sydd ar gael, sydd wedi'i labelu fel '2022', mewn gwirionedd yn ymwneud â'r amserlen rhwng mis Hydref 2021 a mis Medi 2022, ond ar gyfer yr holl flynyddoedd eraill yn y tabl, mae data'n cwmpasu'r cyfnod rhwng Ionawr a Rhagfyr.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2014 | 7,633 | 1,664 | 2,137 | 605 |
| 2013 | 9,485 | 1,879 | 2,961 | 226 |
| 2012 | 6,736 | 2,649 | 2,358 | 495 |
| 2011 | 8,928 | 1,537 | c | c |

Ffynhonnell: Amcangyfrifon Economaidd Sector DCMS

2.6 Yn ôl data cyflogaeth diweddaraf yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, cyflogwyd dros 14,500 o weithwyr yn y sectorau celfyddydau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau yn 2022. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae ffigurau cyflogaeth ar gyfer y sector treftadaeth wedi'u hatal er mwyn osgoi datgelu gwybodaeth berthnasol oherwydd cyfrifon isel. Cofnododd y data diweddaraf sydd ar gael fod 356 o swyddi wedi’u llenwi yn y sector treftadaeth yn 2018.[9] Fel y dangosir yn y tabl uchod, nid oes unrhyw duedd canfyddadwy yng nghyfanswm cyflogaeth yn y sector diwylliant dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gan ei fod yn parhau i fod yn gymharol sefydlog. Y sector Celfyddydau yw’r eithriad bychan, lle cafwyd amrywiadau yn y gweithlu o ran twf a dirywiad o un flwyddyn i’r llall.

2.7 Yn ôl nodyn methodolegol y DCMS[10], mae gwendidau sylweddol gyda dadansoddiadau'r diwydiant, gan fod data LFS a GSC yn seiliedig ar hunan-adrodd unigolion, yn hytrach nag ar wybodaeth o ffurflenni busnes. Yn ogystal, mae’n bwysig nodi nad yw’r ystadegau cyflogaeth a ddarperir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cynnwys y gweithlu gwirfoddol, sy’n cynrychioli cyfran sylweddol o’r gweithlu cyffredinol yn y sectorau diwylliannol, fel y dangosir yn yr adrannau canlynol ar y gweithlu amgueddfeydd a llyfrgelloedd.

2.8 Ceir gwybodaeth ychwanegol am y gweithlu a gyflogir yn y sectorau diwylliannol o fewn y cwmpas mewn cyfres o gyhoeddiadau sector-benodol, a fydd yn cael eu disgrifio yn yr adrannau a ganlyn. Oherwydd amrywiadau mewn dangosyddion, methodolegau casglu data, a chyfnodau adrodd, nid yw’r cyhoeddiadau hyn yn darparu gwybodaeth gyson ar draws y pum is-sector yn eu cwmpas. Felly, ni

[9] Noda’r nodyn methodolegol sy’n cyd-fynd â’r datganiad ystadegol cyflogaeth, oherwydd y cyfyngiadau sy’n gysylltiedig â chodau SIC07, fod yr amcangyfrifon cyhoeddedig yn debygol o danamcangyfrif y ffigur cyflogaeth ar gyfer y sector treftadaeth.
[10] Ar gael yn: DCMS Sector Economic Estimates Methodology - GOV.UK

argymhellir gwneud cymariaethau uniongyrchol rhwng is-sectorau sy'n defnyddio'r data hyn. At hynny, mae data o'r cyhoeddiadau hyn yn aml yn cael ei gasglu o is-set benodol o sefydliadau/cyflogwyr, nad ydynt efallai'n cynrychioli'r cyfan o is-sector penodol. Serch hynny, mae'r cyhoeddiadau hyn yn darparu mewnwelediadau gwerthfawr sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r gweithlu o fewn y sectorau diwylliannol.

**Amgueddfeydd**

2.9 Cesglir y data mwyaf cynhwysfawr ar weithlu amgueddfeydd Cymru gan Sbotolau ar Amgueddfeydd[11], arolwg cyfnodol a gynhaliwyd gyntaf yn 2006. Cynhyrchwyd rhifyn olaf yr adroddiad yn 2020 gan Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru a Phrifysgol Caerdydd, ac roedd yn cynnwys data o flwyddyn ariannol 2018/19. Cyhoeddwyd datganiadau blaenorol yn 2015, 2011, 2006 a 2002.

2.10 Mae data yn yr adroddiad yn seiliedig ar arolwg o amgueddfeydd achrededig. Mae'r data felly'n dibynnu ar bwy sy'n ymateb i'r arolwg ac felly ni fyddai'n dal y sector amgueddfeydd cyfan, ond serch hynny mae'n cynnig safbwynt gweddol gynrychioliadol. Yn 2020, ymatebodd 85 o amgueddfeydd i'r arolwg, sef 53% o'r tua 160 o sefydliadau a ddiffinnir fel amgueddfeydd. O'r 85 o ymatebwyr, mae 83 yn amgueddfeydd achrededig, sef 78% o'r 106 o amgueddfeydd achrededig yng Nghymru. O'r 160 o amgueddfeydd, nid yw 40 yn bodloni'r meini prawf 'gweithio tuag at achredu' ac nid ydynt erioed wedi cymryd rhan yn arolwg Sbotolau.

2.11 Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r gweithlu cyflogedig a gwirfoddol ar draws y pedwar categori amgueddfa yng Nghymru.

**Tabl 2.3: Gwirfoddolwyr amgueddfa a staff cyflogedig yn ôl math o amgueddfa, 2018/19.**

| Math o amgueddfa | Gwirfoddolwyr | Oriau gwirfoddolwyr | Cyflogedig | Cyflogedig CALl | Cyfanswm staff | Canran gwirfoddolwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Amgueddfa Cymru | 1,134 | 29,507 | 838 | 543.0 | 1,972 | 57.50% |
| Amgueddfeydd Annibynnol | 1,112 | 161,198 | 160 | 77.2 | 1,272 | 87.40% |

[11]Mae rhifyn 2020 ar gael yn: [Sbotolau ar amgueddfeydd 2020 | LLYW.CYMRU]

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Awdurdod lleol | 434 | 34,649 | 263 | 140.4 | 697 | 62.20% |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 1,555 | 179,322 | 345 | 231.1 | 1,900 | 81.80% |
| Cyfanswm | 4,235 | 404,676 | 1,606 | 991.7 | 5,841 | 72.50% |

Ffynhonnell: Sbotolau ar Amgueddfeydd 2020

2.12 Yn ôl canfyddiadau arolwg Sbotolau, cyflogodd yr amgueddfeydd gyfanswm o 5,841 o unigolion yn 2018/19. Yn nodedig, roedd mwyafrif y gweithwyr hyn – 72.5% o'r gweithlu cyfan – yn wirfoddolwyr. Mae'r ffigur hwn yn golygu bod 4,235 o unigolion yn cyfrannu 404,676 o oriau gwirfoddol. O ran cyflogaeth â thâl, datgelodd yr arolwg fod 991.68 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALl) wedi'u llenwi, sydd 38% yn is na ffigur cyfanswm y gweithlu cyflogedig (1,606 o weithwyr). Mae'r niferoedd hyn yn awgrymu bod cyfran sylweddol o weithwyr yn cael eu cyflogi'n rhan-amser.

2.13 Mae'r tabl isod yn cyflwyno'r cyfansymiau cyfunol o wirfoddolwyr a staff cyflogedig a adroddwyd yn nhri rhifyn diwethaf yr adroddiad. Mae'n ystyried nifer cyffredinol yr ymatebion a dderbyniwyd, sef 80 yn 2015 (yn cynnwys blwyddyn ariannol 2013/14) a 106 yn 2011 (yn cynnwys blwyddyn ariannol 2010), yn ogystal â'r ymatebion a ddarparwyd gan y 'grŵp craidd ' – y 51 amgueddfa a gymerodd ran yn gyson yn yr arolwg bob blwyddyn.

**Tabl 2.4: Gwirfoddolwyr amgueddfa a staff cyflogedig dros y blynyddoedd.**

| | **Pob amgueddfa** | | **Grŵp craidd** | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwirfoddolwyr | Staff cyflogedig | Gwirfoddolwyr | Staff cyflogedig |
| 2010 | 2,118 | 1,317 | 792 | 962 |
| 2013/14 | 2,300 | 1,196 | 1,409 | 924 |
| 2018/19 | 4,235 | 1,606 | 2,159 | 1,100 |

Ffynhonnell: Sbotolau ar Amgueddfeydd 2020

2.14 O ystyried y grŵp craidd o ymatebwyr yn unig, gwelwyd twf o 39.7% yn y gweithlu rhwng dau rifyn diweddaraf yr arolwg, wedi'i ysgogi gan gynnydd o 53.2% yn nifer y gwirfoddolwyr, a oedd eisoes 78.0% yn fwy yn 2013/14 nag yn rhifyn 2011 o'r adroddiad.

**Llyfrgelloedd**

2.15 Mae Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020[12] yn darparu fframwaith ar gyfer gwerthuso a gwella ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru. O dan y safonau hyn, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gyflwyno adroddiad blynyddol sy'n ymdrin ag ystod eang o agweddau ar wasanaethau llyfrgell. Mae’r adroddiad yn cynnwys data a dangosyddion sy’n helpu i fesur perfformiad ac effaith llyfrgelloedd cyhoeddus mewn meysydd fel ystadegau defnydd, niferoedd ymwelwyr, benthyciadau llyfrau, ymgysylltu digidol, a rhaglenni allgymorth. Yn ogystal â data meintiol, mae’r adroddiadau blynyddol hefyd yn cynnwys astudiaethau achos, sy’n amlygu prosiectau, mentrau, neu straeon llwyddiant penodol o lyfrgelloedd unigol ym mhob awdurdod lleol. Pwrpas yr adroddiadau hyn yw rhoi trosolwg cynhwysfawr o weithgareddau'r llyfrgell a'u heffaith ar y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

2.16 Mae'r adroddiadau blynyddol yn cynnwys gwybodaeth am weithlu'r llyfrgell, gan gwmpasu lefelau staffio, cymwysterau staff a gwirfoddolwyr, fel y disgrifir yn y paragraffau canlynol. Daw'r dangosyddion gweithlu mwyaf diweddar o 2019/20[13], gan fod cau llyfrgelloedd cyhoeddus a’r tarfu ar wasanaethau oherwydd pandemig Covid-19 wedi ei gwneud yn anymarferol i barhau â’r ymarfer adrodd blynyddol arferol yn erbyn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn 2020/21. Yn lle hynny, rhoddwyd ymarfer casglu data diwygiedig ar waith[14], gyda mwy o bwyslais ar gasglu gwybodaeth ansoddol a phrofiad defnyddwyr y llyfrgell. Mae’r wybodaeth a gyflwynir yn y paragraffau canlynol yn cyfeirio at adroddiadau asesu blynyddol 2019/20 a blynyddoedd blaenorol.

2.17 Nid yw'r adroddiadau asesu blynyddol yn darparu gwybodaeth am nifer y gweithwyr. Y cyfan sydd raid i awdurdodau lleol ei wneud yw adrodd p’un a ydynt wedi cyflawni cyfanswm lefel staffio’r gwasanaeth llyfrgell o 3.6 cyfwerth ag amser llawn (CALl) fesul 10,000 o’r boblogaeth breswyl, ac eithrio staff nad ydynt yn gweithio’n uniongyrchol mewn darpariaeth gwasanaeth (e.e., glanhawyr).

---

[12]Ar gael yn: [Mesur y gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus: ein safonau | LLYW.CYMRU]
[13]Mae Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2019/20 a gynhyrchir gan bob awdurdod lleol ar gael yn: [Adroddiadau blynyddol y gwasanaeth llyfrgelloedd 2019 i 2020 | LLYW.CYMRU].
[14]Ar gael yn: [Adroddiad llyfrgelloedd Cymru: 2020 i 2021 | LLYW.CYMRU]

2.18 Mae hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol adrodd ar ddau ddangosydd ansawdd ynghylch cymwysterau staffio. Mae'r metrig cyntaf yn asesu a yw cyfanswm nifer y staff (CALI) sydd â chymwysterau cydnabyddedig mewn llyfrgellyddiaeth, gwyddor gwybodaeth neu reoli gwybodaeth fesul 10,000 o'r boblogaeth breswyl yn cyrraedd y trothwy o 0.65. Mae'r ail fetrig yn canolbwyntio ar reolwr gweithredol dynodedig y gwasanaeth llyfrgell, gan fynnu eu bod naill ai'n meddu ar gymwysterau cydnabyddedig mewn llyfrgellyddiaeth, gwyddor gwybodaeth, neu reoli gwybodaeth, neu wedi cwblhau hyfforddiant rheoli llyfrgell perthnasol o fewn y tair blynedd diwethaf. Mae'r tabl isod yn crynhoi canlyniadau 2019/20 ar gyfer y tair lefel staffio a'r metrigau cymwysterau ar draws y 22 awdurdod lleol.

**Tabl 2.5: Lefel staffio llyfrgell a dangosyddion cymhwyster, 2019/20.**

| Metrig | Awdurdodau lleol yn bodloni'r dangosydd ansawdd yn 2019/20 |
|---|---|
| Lefelau staff y pen | 4.5% (1 o 22) |
| Staff cymwys y pen | 18.2% (4 o 22) |
| Cymhwyster/hyfforddiant pennaeth gwasanaeth | 95.5% (21 o 22) |

Ffynhonnell: Adroddiadau Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2019/20

2.19 Dengys y tabl mai dim ond un awdurdod lleol a gyflawnodd y gofyniad lefel staffio, gan gyflogi 3.6 CALI ar gyfer 10,000 o'r boblogaeth. Bodlonwyd y ddau faen prawf ansawdd arall ar gymwysterau staffio gan 4 a 21 allan o 22 awdurdod lleol. Mae'r dangosyddion hyn hefyd ar gael ar gyfer 2018/19[15] a 2017/18[16].

2.20 Mae'r data diweddaraf ar nifer y gwirfoddolwyr ac oriau gwirfoddolwyr yn deillio o Adroddiadau Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2018/19. Ni chasglwyd y ffigurau hyn ar gyfer blwyddyn adrodd ddilynol 2019/20 oherwydd yr aflonyddwch a achoswyd gan y pandemig Covid-19, a gafodd effaith sylweddol ar weithgareddau llyfrgelloedd. Yn adroddiadau 2018/19, cofnodwyd cyfanswm o

[15]Mae Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2018/19 a gynhyrchir gan bob awdurdod lleol ar gael yn: [Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2018 i 2019 | LLYW.CYMRU]

[16]Mae Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2017/18 a gynhyrchir gan bob awdurdod lleol ar gael yn: [Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2017 i 2018 | LLYW.CYMRU]

1,058 o wirfoddolwyr, gan gyfrannu cyfanswm o 45,412 awr o wasanaeth gwirfoddol.

2.21 Ceir gwybodaeth ychwanegol am y gweithlu llyfrgelloedd mewn astudiaeth o weithlu gwybodaeth y DU, a gomisiynwyd gan Sefydliad Siartredig y Gweithwyr Llyfrgell a Gwybodaeth Proffesiynol (CILIP) a'r Gymdeithas Archifau a Chofnodion (ARA) yn 2014, ac a gwblhawyd yn 2015[17]. Yr astudiaeth yw'r mapio cyntaf ledled y DU o'r gweithlu gwybodaeth, sy'n cynnwys gweithwyr llyfrgell, archifau, cofnodion, rheoli gwybodaeth a rheoli gwybodaeth. Mae canfyddiadau'r adroddiad yn seiliedig ar set ddata o 10,628 o ymatebion i'r arolwg, sef sampl ystadegol arwyddocaol o gyfanswm amcangyfrifedig y gweithlu gwybodaeth, sef dros 86 mil o unigolion.

2.22 Mae sampl yr arolwg yn cynnwys 395 o unigolion sy'n gweithio mewn llyfrgelloedd yng Nghymru. Dim ond dwy set o ystadegau y mae'r adroddiad yn eu cynnig y gellir eu dadansoddi ar lefel ranbarthol a sector, gan ddarparu data sy'n benodol i'r gweithlu llyfrgelloedd yng Nghymru. Dyma ddosbarthiad gweithwyr ar draws bandiau cyflog ac ar draws statws swyddi, fel y dangosir yn y ddau dabl isod.

2.23 Dengys Tabl 1.6 ddosbarthiad gweithwyr ar draws y bandiau cyflog. Dim ond ymatebwyr a oedd yn gweithio 22 awr yr wythnos neu fwy a gafodd eu cynnwys, sef 301 o ymatebwyr.

**Tabl 2.6: Dosbarthiad gweithwyr llyfrgell ar draws bandiau cyflog, 2014/15**

[17] Mae'r astudiaeth ar gael fel 'Adroddiad Gweithlu 2015' yn: A range of resources for the record keeping sector — Archives & Records Association

| Cyflog | Canran y gweithwyr |
|---|---|
| Llai na £15,001 | 8.3% |
| £15,001 i £17,500 | 6.6% |
| £17,501 i £20,000 | 7.6% |
| £20,001 i £22,500 | 12.3% |
| £22,501 i £25,000 | 9.3% |
| £25,001 i £30,000 | 15.6% |
| £30,001 i £35,000 | 14.3% |
| £35,001 i £40,000 | 10.6% |
| £40,001 i £50,000 | 12.0% |
| £50,001 i £80,000 | 3.0% |
| £80,001 neu fwy | 0.3% |

Ffynhonnell: Astudiaeth o weithlu gwybodaeth y DU

2.24 Mae data'r bandiau cyflog yn datgelu bod cyfran sylweddol (22.5%) o weithwyr yn ennill llai na £20,000, sy'n dangos bod cyfran sylweddol o weithwyr ag incwm cymharol isel. Mae dros 40% o'r gweithwyr yn ennill rhwng £25,000 a £40,000, tra bod 15% o'r gweithlu dros £40,000. Mae'r cyflog canolrif rhwng £25,000 a £30,000.

2.25 Dengys Tabl 1.7 ddosbarthiad gweithwyr ar draws 8 statws swydd. Mae'n dangos bod mwyafrif yr ymatebwyr yn weithwyr rheng flaen (38.5%), gyda 20.8% yn weithwyr rheolaeth lefel gyntaf a 19.2% yn weithwyr rheolaeth ganol.

**Tabl 2.7: Dosbarthiad gweithwyr llyfrgell ar draws statws swyddi, 2014/15**

| Statws swydd | Canran y gweithwyr |
|---|---|
| Uwch reolwyr | 8.6% |
| Rheolwyr canol | 19.2% |
| Rheolwyr lefel gyntaf | 20.8% |
| Goruchwylwyr | 13.7% |
| Rheng flaen | 38.5% |
| Ymgynghorwyr annibynnol | 0.8% |
| Gwirfoddolwyr | 0.8% |

| | |
|---|---|
| Arall | 6.8% |

Ffynhonnell: Astudiaeth o weithlu gwybodaeth y DU

2.26 Cynhaliwyd rhifyn newydd o'r arolwg rhwng Awst a Medi 2022, a chrynhoir y canlyniadau yn adroddiad 2023 yr Astudiaeth o weithlu gwybodaeth y DU[18]. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn cyflwyno canlyniadau naill ai wedi'u categoreiddio fesul gwlad neu sector, felly nid yw'n caniatáu arsylwi ar unrhyw ddata sy'n benodol i'r sector llyfrgelloedd yng Nghymru.

**Archifau**

2.27 Yr astudiaeth o weithlu gwybodaeth y DU a gomisiynwyd gan CILIP ac ARA yw'r unig ffynhonnell o ddata sydd ar gael i'r cyhoedd am y gweithlu archifau yng Nghymru. Dengys Tabl 1.8 ddosbarthiad gweithwyr ar draws y bandiau cyflog, gan dynnu o sampl o 64 o weithwyr archif.

**Tabl 2.8: Dosbarthiad gweithwyr archifau ar draws bandiau cyflog, 2014/15**

| **Cyflog** | **Canran y gweithwyr** |
|---|---|
| Llai na £15,001 | 6.3% |
| £15,001 i £17,500 | 1.6% |
| £17,501 i £20,000 | 4.7% |
| £20,001 i £22,500 | 10.9% |
| £22,501 i £25,000 | 10.9% |
| £25,001 i £30,000 | 31.3% |
| £30,001 i £35,000 | 15.6% |
| £35,001 i £40,000 | 7.8% |
| £40,001 i £50,000 | 6.3% |
| £50,001 i £80,000 | 4.7% |
| £80,001 neu fwy | 0.0% |

Ffynhonnell: Astudiaeth o weithlu gwybodaeth y DU

2.28 Mae dosbarthiad cyflogau ymhlith gweithwyr archifau yn datgelu crynhoad o gwmpas y bandiau cyflog canolog, gyda dim ond 12.6% o weithwyr yn ennill llai na

[18] Mae'r astudiaeth ar gael fel 'Adroddiad Gweithlu 2022' yn: A range of resources for the record keeping sector — Archives & Records Association

£20,000 ac 11.0% dros £40,000. Mae’r incwm canolrifol yn disgyn rhwng £25,000 a £30,000, ac mae tua 30% o weithwyr ar yr ystod gyflog hon.

2.29 Dengys Tabl 1.9 ddosbarthiad gweithwyr ar draws statws swyddi, sy'n deillio o sampl o 99 o ymatebwyr. Yn debyg i weithlu'r llyfrgell, mae mwyafrif sylweddol o ymatebwyr yn cael eu cyflogi mewn swyddi rheng flaen (31.3%). Mae'n werth nodi bod gwirfoddolwyr yn cyfrif am gyfran sylweddol, sef 15.2% o'r holl weithlu.

**Tabl 2.9: Dosbarthiad gweithwyr archifau ar draws statws swyddi, 2014/15.**

| Statws swydd | Canran y gweithwyr |
|---|---|
| Uwch reolwyr | 6.1% |
| Rheolwyr canol | 18.2% |
| Rheolwyr lefel gyntaf | 15.2% |
| Goruchwylwyr | 11.1% |
| Rheng flaen | 31.3% |
| Ymgynghorwyr annibynnol | 4.0% |
| Gwirfoddolwyr | 15.2% |
| Arall | 7.1% |

Ffynhonnell: Astudiaeth o weithlu gwybodaeth y DU

2.30 Fel y soniwyd yn yr adran flaenorol ar y sector llyfrgelloedd, cynhaliwyd rhifyn newydd o'r arolwg yn 2022, ond nid yw'r adroddiad lle cyflwynir canlyniadau'r arolwg yn caniatáu arsylwi ar unrhyw ddata sy'n benodol i'r sector archifau yng Nghymru, gan fod yr holl ddeilliannau yn cael eu dangos naill ai fesul gwlad neu sector.

**Treftadaeth**

2.31 Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, ac mae'n gofalu am fwy na 130 o adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig sydd ar agor i'r cyhoedd. Yn ôl eu gwefan, mae tua 250 o unigolion yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y sefydliad ar hyn o bryd, yn rhychwantu amrywiol alwedigaethau ar draws chwe changen weithredol.[19]

2.32 Er mwyn cael persbectif ehangach ar holl amgylchedd hanesyddol Cymru – sy'n cwmpasu nid yn unig adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig ond hefyd ardaloedd cadwraeth, parciau a gerddi cofrestredig, tirweddau hanesyddol cofrestredig, a llongddrylliadau hanesyddol gwarchodedig – gellir dod o hyd i'r data gweithlu diweddaraf yn adroddiad Heritage Counts Cymru 2018-19[20]. Cynhyrchwyd yr adroddiad gan y sefydliadau sector elusennol, gwirfoddol a phreifat a ariennir gan y llywodraeth sy'n aelodau o Grŵp Amgylchedd Hanesyddol Cymru (HEG) ac

[19] Mae'r wybodaeth hon ar gael yn: [Pwy ydyn ni | Cadw (llyw.cymru)]
[20] Ar gael yn: [Adroddiad Heritage Counts 2019 | Cadw (llyw.cymru)]

mae'n cynnig ystod eang o wybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Yn ôl yr adroddiad, mae sector yr amgylchedd hanesyddol yn cyflogi mwy na 3,500 o bobl yn uniongyrchol yng Nghymru ac mae ganddo dros 400 o swyddi tymhorol.

2.33 Roedd amcangyfrifon blaenorol o Adroddiad Technegol Gwerthfawrogi Amgylchedd Hanesyddol Cymru ar yr Effaith Economaidd [21] a gynhyrchwyd gan ECOTEC yn 2010 yn dangos bod cyfanswm y gweithwyr CALI sy'n gweithio yn y 'cog mewnol' [22] o'r sector amgylchedd hanesyddol bron i 1,500, gan gynnwys tua 250 o CALI tymhorol.

**Celfyddydau**

2.34 Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnal arolygon ddwywaith y flwyddyn sy'n cwmpasu holl aelodau Portffolio Celfyddydau Cymru, grŵp o 67 o sefydliadau sy'n derbyn cyllid refeniw craidd gan y Cyngor. Mae'r arolygon hyn yn casglu ystod eang o wybodaeth, gan gynnwys manylion am ddigwyddiadau a sesiynau a drefnwyd, presenoldeb, a chyfansoddiad y gweithlu. Mae'n ofynnol i'r sefydliadau a arolygwyd adrodd ar nifer y gweithwyr, gwirfoddolwyr ac aelodau'r bwrdd rheoli.

2.35 Yna caiff y data a gesglir drwy Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru ei ymgorffori mewn cyfres o gyhoeddiadau cyfnodol, gan gynnwys Adroddiad Uchafbwyntiau Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru[23] ac Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg [24]. Cyhoeddwyd adroddiad Uchafbwyntiau Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru ddwy waith: mae datganiad 2021/22 yn cynnwys data cyflogaeth am y flwyddyn benodol honno a'r ddwy flynedd flaenorol, tra bod datganiad 2019/18 yn cwmpasu'r flwyddyn honno a'r flwyddyn flaenorol. O ran Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg, mae wedi cael ei gyhoeddi'n gyson bob blwyddyn rhwng 2014/15 a 2020/21, gyda bwlch yn 2016/17. Mae pob rhifyn yn cynnig data am y flwyddyn gyfredol a'r flwyddyn flaenorol.

[21] Ar gael yn: Ymchwil | Cadw (llyw.cymru).
[22] Diffinnir 'cog mewnol' sector yr amgylchedd hanesyddol at ddiben yr astudiaeth i gynnwys y sefydliadau hynny y gellir eu hystyried wrth graidd sector yr amgylchedd hanesyddol (h.y., gweithgareddau sy'n ymwneud â gwarchod, gwella a chadwraeth y sector amgylchedd hanesyddol)
[23] Ar gael yn: Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru | Cyngor Celfyddydau Cymru
[24] Ar gael yn: Adroddiadau Blynyddol yr Iaith Gymraeg | Cyngor Celfyddydau Cymru

2.36 Noder bod rhai gwahaniaethau rhwng y ddau gyhoeddiad yn y niferoedd a adroddir. Mae hyn i'w briodoli i'r ffaith bod Adroddiadau Blynyddol yr Iaith Gymraeg fel arfer yn cael eu rhyddhau cyn adroddiadau Uchafbwyntiau Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru ac felly efallai na fyddant yn dal yr holl ddata a gyflwynir ac a ddefnyddir yn adroddiadau Portffolio Celfyddydau Cymru yn y pen draw. O'r herwydd, dylid ystyried adroddiadau Uchafbwyntiau Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru fel ffynhonnell fwy dibynadwy a chyflawn o ddata cyflogaeth. Yn unol â hynny, mae'r tabl canlynol yn cyflwyno data o Adroddiadau Blynyddol yr Iaith Gymraeg am flynyddoedd nad ydynt wedi'u cynnwys yn adroddiadau Uchafbwyntiau Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru.

**Tabl 2.10: Nifer y gweithwyr, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr yn sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru.**

| Cyhoeddiad | Math o weithiwr | 2021/22 | 2020/21 | 2019/20 | 2018/19 | 2017/18 | 2016/17 | 2015/16 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uchafbwyntiau Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru | Gweithwyr | 2,188 | 2,141 | 2,403 | 3,527 | 3,198 | | | |
| | Gwirfoddolwyr | 1,235 | 918 | 705 | 1,270 | 1,379 | | | |
| | Ymddiredolwyr | 569 | 343 | 355 | 661 | 662 | | | |
| Adroddiadau Blynyddol yr Iaith Gymraeg | Gweithwyr | | | | | | 3,536 | 4,217 | 4,135 |
| | Gwirfoddolwyr | | | | | | 1,686 | 1,353 | 1,310 |
| | Ymddiredolwyr | | | | | | 696 | 728 | 764 |

Ffynhonnell: Uchafbwyntiau Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru ac Adroddiadau Blynyddol yr Iaith Gymraeg

2.37 Mae'r tabl yn dangos gostyngiad cyffredinol yn nifer y gweithwyr o fewn y sector dros y blynyddoedd, er bod achosion lle mae'r ffigur ychydig yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Er nad yw'r ffigurau ar gyfer gwirfoddolwyr yn dangos tuedd canfyddadwy, bu cynnydd amlwg yn y ddwy flynedd ddiwethaf a gynhwysir yn yr arolwg o gymharu â'i bwynt isaf yn 2019/20. Yn yr un modd, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer aelodau'r bwrdd yn y flwyddyn ddiweddaraf a gynhwysir yn yr arolwg, mewn cyferbyniad â'r ddwy flynedd flaenorol, er nad yw eto wedi cyrraedd y lefelau a welwyd cyn 2019/20.

2.38 Casglodd rhifyn 2021/22 o Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru ddata ar weithwyr llawrydd yn y sector am y tro cyntaf, gan ddatgelu cyfanswm o 2,808 o weithwyr llawrydd yn gweithio yn y celfyddydau.

2.39 Mae'n ofynnol i sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru gasglu'r wybodaeth ganlynol am y gweithlu, yn ymwneud â nodweddion gwarchodedig:

- Nifer y gweithwyr anabl
- Nifer y gweithwyr â chredoau crefyddol penodol
- Nifer y gweithwyr lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol
- Nifer y gweithwyr traws
- Nifer y gweithwyr sy'n amrywiol o ran ethnigrwydd a diwylliant
- Nifer y gweithwyr anabl
- Nifer y gweithwyr sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth.

2.40 Yn Uchafbwyntiau Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru 2021/22, darperir y wybodaeth hon ar ffurf graff nad yw'n caniatáu echdynnu rhifau. Yn lle hynny, mae'r ffigurau hyn ar gael ar gyfer y blynyddoedd 2019/20 a 2018/19 yn y set ddata 'Data Agored: Monitro Cydraddoldeb Medi 2020'[25]. Mae adran Blaenoriaethau Polisi yr adroddiad yn trafod y themâu hyn mewn mwy o fanylder.

[25] Ar gael yn: Data agored | Cyngor Celfyddydau Cymru

## 3. Defnyddwyr / Ymwelwyr / Mynychwyr

3.1 Mae’r adran hon yn crynhoi’r dystiolaeth sydd ar gael ar lefel ymgysylltiad y cyhoedd yn y sector diwylliant, o ran defnyddwyr, ymwelwyr a mynychwyr.

3.2 Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys cwestiynau sy’n casglu data ar brofiad a pherthynas unigolion a arolygwyd â’r celfyddydau a diwylliant. Mae’r arolwg yn cynnig ystod eang o ddata ar y pum is-sector o fewn cwmpas yr adolygiad hwn, gan gwmpasu agweddau megis presenoldeb mewn lleoliadau neu ddigwyddiadau diwylliannol, amlder presenoldeb, cymhellion dros fynychu neu beidio â mynychu, a lefelau boddhad â’r profiad. Fodd bynnag, mae’n bwysig nodi bod y cwestiynau hyn wedi’u gofyn yn anghyson i gyfranogwyr ar draws gwahanol is-sectorau a thros y blynyddoedd,[26] sy’n creu her wrth geisio dirnad y newidiadau yn y dangosyddion dros amser a thynnu cymariaethau ystyrlon rhwng gwahanol sectorau. Mae hyn yn wir hefyd am y prif ddangosydd a gyflwynir yn y bennod hon, sef y mesur mwyaf dangosol o ymgysylltiad y cyhoedd mewn gweithgareddau diwylliannol, h.y., canran yr ymatebwyr sydd wedi ymweld, defnyddio neu fynychu amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau, safleoedd treftadaeth a digwyddiadau celfyddydol.

3.3 Dim ond rhifynnau 2019/20 a 2017/18 o’r arolwg sy’n darparu’r dangosydd hwn yn gyson ar draws y pum is-sector. Yn benodol, gofynnwyd y cwestiynau canlynol i gyfranogwyr yr arolwg [27]:

- **Amgueddfeydd**: Yn y 12 mis diwethaf, a ydych wedi bod mewn amgueddfa?
- **Llyfrgelloedd**: Yn y 12 mis diwethaf, a ydych wedi defnyddio gwasanaeth llyfrgell gyhoeddus?
- **Archifau**: Yn y 12 mis diwethaf, a ydych wedi bod mewn archifdy neu swyddfa gofnodion?
- **Treftadaeth**:Yn y 12 mis diwethaf, a ydych wedi ymweld ag unrhyw un o'r lleoedd hyn? Mae'r rhestr yn cynnwys: adeilad hanesyddol sy'n agored i'r

[26]Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnig ‘dangosydd canlyniadau’ cyfleus sy’n rhoi trosolwg o’r cwestiynau penodol a ofynnir bob blwyddyn. Mae'r offeryn hwn yn galluogi defnyddwyr i gael mynediad hawdd ac archwilio cynnwys yr holiadur yn ogystal â chanlyniadau'r arolwg ar gyfer pob cwestiwn. Gellir lawrlwytho’r ‘dangosydd canlyniadau’ yn: Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau | LLYW.CYMRU

[27] Gofynnwyd cwestiynau tebyg yn rhifyn 2021/22 o’r arolwg, ond dim ond ar gyfer amgueddfeydd a’r celfyddydau.

cyhoedd (anghrefyddol); parc neu ardd hanesyddol sy'n agored i'r cyhoedd; lle sy'n gysylltiedig â hanes diwydiannol; man addoli hanesyddol a fynychwyd fel ymwelydd; cofeb fel castell, caer neu adfail; safle o ddiddordeb archeolegol; safle hanesyddol / treftadaeth arall.

- **Celfyddydau**:
  - Mynychu – Yn y 12 mis diwethaf, a ydych wedi mynychu unrhyw un o'r digwyddiadau celfyddydol canlynol? Mae'r rhestr yn cynnwys: dangos ffilmiau; theatr; perfformiad dawns; digwyddiad adrodd straeon neu ddarllen; digwyddiadau celfyddydol eraill.
  - Cyfranogi – Yn y 12 mis diwethaf, a ydych wedi cymryd rhan yn unrhyw un o'r gweithgareddau hyn? Mae'r rhestr yn cynnwys: cerddoriaeth; drama neu weithgaredd theatrig; dawns; gwneud ffilmiau neu ffotograffiaeth; celf a chrefft gweledol; ysgrifennu creadigol; gwneud gwaith celf neu animeiddiad gan ddefnyddio technoleg ddigidol; sgiliau syrcas, celfyddydau stryd neu weithgaredd theatr gorfforol arall.

3.4 Dengys y tabl isod ganlyniadau'r cwestiynau ar gyfer 2020/19 a 2017/18.

**Tabl 3.1: Canran yr ymatebwyr sydd wedi defnyddio/ymweld/mynychu amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau, treftadaeth a'r celfyddydau yn y flwyddyn flaenorol.**

| Safle | 2019/20 | 2017/18 |
|---|---|---|
| Amgueddfeydd | 43% | 40% |
| Llyfrgelloedd | 32% | 34% |
| Archifau | 5% | 5% |
| Treftadaeth | 63% | 63% |
| Celfyddydau – Mynychu | 70% | 68% |
| Celfyddydau – Cyfranogi | 19% | 22% |

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

3.5 Mae canrannau'r unigolion a ymgysylltodd yn debyg iawn ar draws y ddwy flynedd a gynhwyswyd, i bob un o'r pum is-sector diwylliannol. Mae hyn yn awgrymu lefel gyson o ddiddordeb mewn gweithgareddau diwylliannol dros amser ymhlith y boblogaeth. Cofnodir y lefelau presenoldeb uchaf mewn digwyddiadau celfyddydol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod mynd i'r sinema hefyd yn cael ei

gategoreiddio fel presenoldeb mewn digwyddiadau celfyddydol o fewn cyd-destun yr arolwg hwn, a allai ystumio dehongliad y canlyniadau hyn.

3.6 Mae'r dangosydd canlyniadau yn cynnig arf hwylus ar gyfer arsylwi'n brydlon ar ddangosyddion allweddol i'r holl gwestiynau a gynhwysir yn Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mewn rhai achosion, mae hyd yn oed yn caniatáu dadgyfuno'r dangosyddion hyn ymhellach, yn seiliedig ar rai o nodweddion yr ymatebwyr. Er bod gan rai is-sectorau fwy o nodweddion ar gael i’w dadansoddi, gellir dadansoddi ystadegau defnyddwyr/ymwelwyr/mynychwyr pob is-sector o leiaf yn ôl grŵp oedran, cymhwyster addysgol uchaf, aelwydydd mewn amddifadedd materol, rhyw, a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Yn adran Blaenoriaethau Polisi yr adroddiad hwn, cyflwynir dadansoddiad trylwyr o ffigurau dethol o fewn y categorïau hyn, gan roi mewnwelediad pellach i'r data sy'n ymwneud ag ymgysylltu ymhlith grwpiau â nodweddion amrywiol. I gael dadansoddiad mwy cynhwysfawr, mae'n bosibl gofyn am a chael mynediad at y microdata cyflawn sy'n deillio o'r arolwg[28],sy'n galluogi dadgyfuno dangosyddion dethol yn ôl yr ystod gyfan o nodweddion unigol a gasglwyd yn yr arolwg.

3.7 Mae’r adrannau canlynol yn ymchwilio i ddata pellach am ymwelwyr, defnyddwyr, a mynychwyr o fewn y pum is-sector diwylliannol, gan dynnu o ffynonellau tystiolaeth sector-benodol.

**Amgueddfeydd**

3.8 Yn debyg i ddata’r gweithlu, mae’r ystadegau mwyaf diweddar a chynhwysfawr yn ymwneud ag ymwelwyr i amgueddfeydd i’w gweld yn adroddiad Sbotolau ar Amgueddfeydd 2020 [29]. Mae’r astudiaeth hon yn casglu data ar nifer gyffredinol yr ymweliadau ffisegol ag amgueddfeydd cyfranogol, sef tua 4.69 miliwn o ymweliadau yn 2019. Yn nodedig, mae’r ffigur hwn yn adlewyrchu cynnydd sylweddol o 22.9% o gymharu â rhifyn 2015 o’r arolwg, a gofnododd gyfanswm o 3.8 miliwn o ymweliadau.

3.9 Amgueddfeydd lleol (nad oeddent yn rhai Amgueddfa Cymru na’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol) a gofnododd y twf mwyaf, gydag ymweliadau yn cynyddu 31.2% o

[28] Ar gael yn: UK Data Service › Study
[29]Ar gael yn: Sbotolau ar amgueddfeydd 2020 | LLYW.CYMRU.

2015 i gyrraedd 1.59 miliwn. Gwelodd ymweliadau ag Amgueddfa Cymru hefyd gynnydd nodedig o 19% i 1.95 miliwn o ymweliadau rhwng 2015 a 2010. Gwelodd eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol hefyd gynnydd mewn ymweliadau, gyda thwf o 19.1%, gan arwain at gyfanswm o 1.16 miliwn o ymweliadau.

3.10 Mae'r cyfansymiau hyn yn gyfan gwbl seiliedig ar yr is-set o amgueddfeydd a ymatebodd, ac a gyflenwodd nifer yr ymwelwyr am bob blwyddyn rhwng 2015 a 2019. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn nodi maint a chyfansoddiad y sampl hwn o amgueddfeydd a ymatebodd.

3.11 Dim ond ar gyfer y flwyddyn 2019 y ceir dadansoddiad manwl o ymwelwyr fesul math o amgueddfa, ynghyd â'r cyfraddau twf a gymharwyd yn 2015. Ar gyfer 2015 a rhwng 2016-2018, darlunnir y ffigurau ar ffurf graffigol yn unig, nad yw'n caniatáu echdynnu union niferoedd i'w hadrodd[30].

3.12 Mae amgueddfeydd hefyd yn elfen allweddol o'r cynnig twristiaeth yng Nghymru, fel y dangosir yn adroddiad ymchwil Beaufort Research sy'n seiliedig ar Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019[31]. Dengys yr adroddiad, sy'n seiliedig ar 811 o gyfweliadau ag ymwelwyr mewn 12 o leoliadau twristiaeth ledled Cymru, bod mwy nag un o bob deg o dwristiaid (11%) wedi ymweld ag amgueddfa yn ystod eu taith diwrnod neu eu hymweliad aros.

3.13 Wrth ddadansoddi'r ffigur hwn yn ôl ardal breswyl yr ymatebwyr, mae'n bosibl sylwi bod mwy na chwarter yr ymwelwyr tramor wedi ymweld ag amgueddfa yn ystod eu taith i Gymru (26%) o gymharu â 10% o'r rhai o Gymru a 15% o rhai o weddill y DU. Ymhellach, ymwelwyr a oedd yn aros dros nos oedd fwyaf tebygol o ymweld ag amgueddfeydd o gymharu â'r rhai ar deithiau dydd (24% o'i gymharu â 10%, yn y drefn honno).

**Llyfrgelloedd**

3.14 Mae Adroddiadau Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus – sy'n cael eu golygu gan bob awdurdod lleol yn unol â Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

[30] Gweler tudalen 19 o'r adroddiad.
[31] Ar gael yn: Arolwg ymwelwyr Cymru 2019: ymwelwyr ag amgueddfeydd ac ardaloedd o ddiddordeb hanesyddol | LLYW.CYMRU

2017-2020[32] – yn darparu tri ffigur y pen ynghylch defnyddwyr llyfrgelloedd cyhoeddus. Y rhain yw:

- Cyfanswm nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd yn ystod y flwyddyn wedi'i rannu â'r boblogaeth breswyl, wedi'i luosi â 1,000.
- Cyfanswm yr ymweliadau allanol â gwefannau'r llyfrgelloedd yn ystod y flwyddyn wedi'i rannu â'r boblogaeth breswyl, wedi'i luosi â 1,000.
- Cyfanswm nifer y benthycwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn wedi'i rannu â'r boblogaeth breswyl, wedi'i luosi â 1,000.

3.15 Yn debyg i'r data gweithlu fel y disgrifiwyd yn yr adran flaenorol, daw'r gwerthoedd diweddaraf ar gyfer y dangosyddion hyn o'r Adroddiadau Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2019/20[33]. Mae'r tabl isod yn dangos y metrigau hyn ar gyfer pob un o'r 22 awdurdod lleol.

[32] Ar gael yn: Mesur y gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus: ein safonau | LLYW.CYMRU
[33] Ar gael yn: Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2019 i 2020 | LLYW.CYMRU

**Tabl 3.2: Ymweliadau llyfrgell, ymweliadau rhithwir a benthycwyr gweithredol yn ôl 1,000 o boblogaeth breswyl fesul awdurdod lleol, 2019/20.**

| | Ymweliadau y pen | Ymweliadau rhithiol y pen | Benthycwyr gweithredol y pen |
|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 4,380 | 395 | 86 |
| Penybont-ar-Ogwr | 3,546 | 677 | 198 |
| Caerffili | 3,596 | 434 | 205 |
| Caerdydd | 6,874 | 2,131 | 244 |
| Sir Gaerfyrddin | 6,291 | 1,233 | 128 |
| Ceredigion | 4,012 | 1,183 | 157 |
| Conwy | 3,270 | 1,384 | 159 |
| Sir Ddinbych | 4,031 | 1,383 | 186 |
| Sir y Fflint | 3,740 | 407 | 113 |
| Gwynedd | 2,741 | 1,082 | 147 |
| Ynys Môn | 4,094 | 1,796 | 114 |
| Merthyr Tudful | 3,564 | 1,055 | 145 |
| Sir Fynwy | 4,742 | 484 | 126 |
| Castell-nedd Port Talbot | 4,175 | 703 | 87 |
| Casnewydd | 2,429 | 744 | 85 |
| Sir Benfro | 4,328 | 1,042 | 137 |
| Powys | 4,007 | 1,607 | 152 |
| Rhondda Cynon Taf | 2,968 | 615 | 78 |
| Abertawe | 3,762 | 924 | 175 |
| Torfaen | 3,333 | 239 | 128 |
| Bro Morgannwg | 5,333 | 240 | 226 |
| Wrecsam | 2,498 | 247 | 122 |

Ffynhonnell: Adroddiadau Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2019/20

3.16 Fel y gwelir o'r tabl, Caerdydd sydd â'r nifer uchaf o ymweliadau, ymweliadau rhithwir a benthycwyr gweithredol fesul 1,000 o'r boblogaeth breswyl. Trwy luosi’r

ffigurau hyn â'r boblogaeth breswyl pob awdurdod lleol (wedi'i rhannu â 1,000)[34] a chrynhoi'r niferoedd canlyniadol, mae'n bosibl amcangyfrif cyfanswm yr (i) ymweliadau â'r llyfrgell, (ii) ymweliadau rhithwir a (iii) y benthycwyr gweithredol yng Nghymru. Y rhain yw (i) 13,257,649, (ii) 3,075,690 a (iii) 484,799. Mae ymweliadau llyfrgell, ymweliadau rhithwir a benthycwyr gweithredol hefyd ar gael am y blynyddoedd 2018/19[35] a 2017/18[36].

**Archifau**

3.17 O bryd i'w gilydd, mae Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn cynnal arolwg o ymwelwyr i archifau'r DU ar ran y Gymdeithas Archifau a Chofnodion (ARA). Mae canlyniadau rhifyn diweddaraf yr arolwg hwn – a gynhaliwyd yn 2022 – ar gael mewn fformat data agored sy'n caniatáu echdynnu rhifau sy'n benodol i archifau Cymru.[37] Cynhwyswyd pymtheg o archifau o fewn cwmpas yr arolwg hwn[38].

3.18 Nid yw astudiaeth CIPFA yn darparu data ar gyfanswm nifer yr ymwelwyr i archifau na chanran y boblogaeth sy'n defnyddio gwasanaethau archifau. Serch hynny, mae'n cynnig gwybodaeth werthfawr am nodweddion ymwelwyr, eu rhesymau dros ymweld â'r archifau, eu boddhad â gwasanaethau archifau, yn ogystal â gwybodaeth nad yw'n ymwneud ag archifau, megis y prif ddull o deithio a gweithgareddau eraill a gynllunnir gan ymwelwyr yn yr un ardal.

3.19 Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o gymhellion ymatebwyr dros ddefnyddio gwasanaethau archifau.

---

[34] Mae amcangyfrif o nifer y trigolion fesul awdurdod lleol ar gael ar StatsCymru yn: Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn (llyw.cymru)

[35]Ar gael yn:Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2018 i 2019 | LLYW.CYMRU

[36]Ar gael yn: Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2017 i 2018 | LLYW.CYMRU

[37] Ar gael fel 'Meincnodi Arolwg Ymwelwyr ag Archifau'r DU 2022' yn: A range of resources for the record keeping sector — Archives & Records Association

[38] Y 15 o archifau yw: Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru (Penarlâg), Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru (Rhuthun), Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Archifau Sir Gaerfyrddin, Archifau Ceredigion, Archifau ac Astudiaethau Lleol Sir Benfro, Archifau Morgannwg, Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg, Prifysgol Abertawe, Archifau Richard Burton, Archifau Gwent, Archifau Ynys Môn, Prifysgol Bangor, Casgliadau Arbennig ac Archifau Prifysgol Caerdydd, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, a Gwasanaeth Archifau Conwy.

**Tabl 3.3: Rhesymau dros ymweld â’r archifau, 2022.**

| Rhesymau dros ymweld â’r archifau | % ymatebwyr yn dethol yr ymateb |
|---|---|
| Ymchwil academaidd | 29.8% |
| Ymchwil pensaernïol / adeiladu / safle | 10.5% |
| Hanes teulu | 31.2% |
| Hanes milwrol | 2.3% |
| Hanes lleol | 31.4% |
| Pori cyffredinol / ymgyfarwyddo â'r archif | 8.6% |
| Dod o hyd i dystiolaeth yn ymwneud â hawliau | 4.5% |
| Dod o hyd i wybodaeth neu dystiolaeth yn ymwneud â fy ngwaith neu ar gyfer y mudiad rydw i'n gwirfoddoli iddo | 9.9% |
| Casglu gwybodaeth ar gyfer sgwrs / cyhoeddiad / cyflwyniad | 10.9% |
| Arall | 9.4% |

Ffynhonnell: Arolwg Ymwelwyr ag Archifau y DU 2022

3.20 Ymwelodd bron i un o bob tri ymatebwr ag archifau i gasglu gwybodaeth am hanes lleol neu hanes teuluol. Y trydydd rheswm mwyaf cyffredin a ddewisir gan ddefnyddwyr archifau yw ymchwil academaidd.

3.21 Dengys y tabl isod y ganran o ddefnyddwyr archifau gwrywaidd a benywaidd, yn ogystal â’u dosbarthiad ar draws grwpiau oedran.

**Tabl 3.4: Dosbarthiad defnyddwyr archifau yn ôl rhyw ac oedran, 2022.**

| | | % ymatebwyr |
|---|---|---|
| **Rhyw** | Benywaidd | 51.6% |
| | Gwrywaidd | 48.4% |
| **Oedran** | Dan 25 | 13.7% |
| | 25 i 44 | 12.8% |
| | 45 i 64 | 27.2% |
| | 65 to 74 | 30.9% |
| | 75 neu drosodd | 15.3% |

Ffynhonnell: Arolwg Ymwelwyr ag Archifau y DU 2022

3.22 Ymysg yr ymatebwyr, mae nifer y defnyddwyr archifau benywaidd ychydig yn uwch na'u cymheiriaid gwrywaidd. Mae oedran cyfartalog ymatebwyr ychydig yn uwch na 56 oed. Fodd bynnag, mae mwyafrif yr ymatebwyr yn perthyn i'r ystod oedran o 65 i 74 ac mae cyfran sylweddol o'r ymatebwyr (15.3%) yn cynnwys unigolion dros 75 oed. Mewn cyferbyniad, dim ond 13.7% o'r cyfanswm sy'n ddefnyddwyr dan 25 oed. Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos mai oedolion hŷn sy'n defnyddio gwasanaethau archifau yn bennaf.

3.23 Mae'r arolwg yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am nodweddion ymatebwyr, gan gynnwys ethnigrwydd, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, a chyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor. Bydd y themâu hyn yn cael eu harchwilio'n fanylach yn adran Blaenoriaethau Polisi yr adroddiad.

3.24 Yn 2021, cynhaliodd CIPFA arolwg hefyd o ddefnyddwyr gwasanaethau ymholiadau o bell archifau. Casglodd yr arolwg hwn ddata tebyg i Arolwg Ymwelwyr ag Archifau y DU 2022, gan gynnwys gwybodaeth benodol am brofiadau defnyddwyr gyda gwasanaethau ymholiadau o bell. Gellir gweld yr adroddiad, ynghyd â'r data agored sy'n galluogi echdynnu canlyniadau sy'n benodol i Gymru, yn yr adran 'Adnoddau' ar wefan ARA[39].

**Treftadaeth**

3.25 Ers 2020, mae Cadw wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol yn gyson yn cynnwys cyfoeth o ddata craff [40]. Mae'r adroddiadau hefyd yn cynnwys cyfanswm yr ymwelwyr i safleoedd Cadw wedi'u staffio rhwng Mawrth y flwyddyn flaenorol ac Ebrill y flwyddyn gyfredol. Darperir yr un ffigur hwn ar gyfer 2018/19 yn adroddiad Heritage Counts Cymru 2018-19[41]. Mae'r tabl canlynol yn manylu ar gyfanswm nifer yr ymwelwyr i safleoedd Cadw am y pedair blynedd y mae'r data hwn ar gael ar eu cyfer.

[39]Ar gael yn: A range of resources for the record keeping sector — Archives & Records Association.
[40] Mae'r tri adroddiad cyhoeddedig ar gael yn: Beth a wnawn ni | Cadw (llyw.cymru)
[41] Ar gael yn: Adroddiad Heritage Counts 2019 | Cadw (llyw.cymru)

**Tabl 3.5: Cyfanswm nifer yr ymwelwyr â safleoedd treftadaeth wedi'u staffio gan Cadw.**

| Blwyddyn | Nifer yr ymwelwyr |
|---|---|
| Ebrill 2021 – Mawrth 2022 | 902,327 |
| Ebrill 2020 – Mawrth 2021 | 113,908 |
| Ebrill 2019 – Mawrth 2020 | 1,260,000 |
| Ebrill 2018 – Mawrth 2019 | 1,321,400 |

Ffynonellau: Adroddiadau Blynyddol Cadw a Heritage Counts Cymru 2018-19

3.26 Adlewyrchir effaith pandemig Covid-19 yn ngostyngiad sydyn nifer yr ymwelwyr yn 2020/21. Mae'r tabl yn dangos tuedd gadarnhaol o adferiad yn nifer yr ymwelwyr yn 2021/22, er nad yw'r ffigur eto wedi cyrraedd y lefelau a gofnodwyd cyn y pandemig.

3.27 Er mwyn cael cipolwg ar broffiliau a phrofiadau ymwelwyr, mae Cadw yn cynnal arolygon o'i ymwelwyr mewn safleoedd treftadaeth mawr o bryd i'w gilydd. Cynhelir yr arolygon hyn yn ystod y tymor brig, sy'n ymestyn rhwng Gorffennaf ac Awst, a'r tymor ysgwydd rhwng Mawrth ac Ebrill. Cynhaliwyd yr arolwg ymwelwyr tymor brig yn 2022, 2018, a 2015[42], tra bod yr arolwg tymor ysgwydd wedi'i gynnal ddwywaith yn unig hyd yn hyn, yn 2018 a 2015[43].

3.28 Mae'r arolygon yn casglu ystod eang o ddata ynghylch ymwelwyr o safleoedd treftadaeth, gan gynnwys eu proffil, pwrpas yr ymweliad, cymhellion, cyfansoddiad y grŵp, y pellter a deithiwyd, a ffynonellau ymwybyddiaeth. Mae'r tabl canlynol yn cymharu oedran a tharddiad ymwelwyr y tymor brig dros y tri rhifyn arolwg. Ceir dadansoddiad manylach o nodweddion ymwelwyr eraill – megis ethnigrwydd a segment economaidd-gymdeithasol – yn yr adran Blaenoriaethau Polisi.

[42] Mae pob rhifyn ar gael yn: Ymchwil | Cadw (llyw.cymru)
[43] Mae pob rhifyn ar gael yn: Ymchwil | Cadw (llyw.cymru)

**Tabl 3.6: Dosbarthiad ymwelwyr treftadaeth tymor brig yn ôl oedran ac ardal breswyl.**

| | | 2022 | 2018 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Grŵp oedran** | Dan 7 | 10% | 11% | 12% |
| | 8 i 15 | 17% | 14% | 13% |
| | 16 i 24 | 8% | 10% | 7% |
| | 25 i 34 | 10% | 11% | 11% |
| | 35 i 44 | 17% | 16% | 17% |
| | 45 i 54 | 14% | 12% | 15% |
| | 55 i 64 | 11% | 11% | 11% |
| | 65 neu drosodd | 13% | 15% | 14% |
| **Ardal breswyl** | Cymru | 22% | 27% | 25% |
| | DU tu allan i Gymru | 63% | 54% | 56% |
| | Tramor | 15% | 19% | 19% |

Ffynhonnell: Arolwg Ymwelwyr Tymor Brig Cadw 2022

3.29 Mae dosbarthiad oedran ymwelwyr yn ystod tymor brig 2022 yn adlewyrchu'n fras y patrymau a welwyd yn y ddau rifyn arolwg blaenorol. Mae'r proffil ymwelwyr i brif safleoedd Cadw yn dangos cynrychiolaeth anghymesur yn y grŵp oedran 8 i 15, yn ogystal ag yn un o'r grwpiau oedran rhieni cysylltiedig, 35 i 44. Mewn cyferbyniad, mae'r grwpiau oedran 16 i 24 a thros 65 ymhlith ymwelwyr Cadw yn cael eu tangynrychioli'n gymharol.

3.30 O ran yr ardal breswyl, bu newid dros y blynyddoedd yn nharddiad ymwelwyr, gyda chyfran gynyddol o ymwelwyr o'r DU y tu allan i Gymru. Mae'r newid hwn yng nghyfran yr ymwelwyr 'y DU y tu allan i Gymru' wedi dod yn groes i'r gostyngiad yn y cyfrannau o ymwelwyr o Gymru ac ymwelwyr tramor.

3.31 Dengys y tabl canlynol yr un dangosyddion ar gyfer arolwg ymwelwyr tymor ysgwydd 2018 a 2015.

**Tabl 3.7: Dosbarthiad ymwelwyr treftadaeth tymor ysgwydd yn ôl oedran ac ardal breswyl.**

| | | 2018 | 2015 |
|---|---|---|---|
| **Grŵp oedran** | 16 i 19 | 1% | 2% |
| | 20 i 24 | 7% | 5% |
| | 25 i 34 | 23% | 21% |
| | 35 i 44 | 26% | 26% |
| | 45 i 54 | 17% | 20% |
| | 55 i 59 | 8% | 8% |
| | 60 i 64 | 7% | 7% |
| | 65 neu drosodd | 11% | 11% |
| **Ardal breswyl** | Cymru | 33% | 43% |
| | DU tu allan i Gymru | 54% | 48% |
| | Tramor | 13% | 9% |

Ffynhonnell: Arolwg Ymwelwyr Tymor Ysgwydd Cadw 2022

3.32 Mae bron i hanner yr ymatebwyr yn y ddwy flynedd yn yr ystod oedran 25 i 44. Fodd bynnag, nid yw'r arolwg yn cynnwys plant 15 oed neu iau. Nid yw'n glir a yw'r eithriad hwn yn ddewis bwriadol, neu nad yw plant fel arfer yn ymweld â safleoedd treftadaeth yn ystod y tymor ysgwydd.

3.33 Dengys yr arolwg ostyngiad o 10 pwynt canran yn nifer yr ymwelwyr o Gymru rhwng dau rifyn yr arolwg. Mewn cyferbyniad, bu cynnydd yng nghyfran yr ymwelwyr o weddill y DU a thramor.

**Celfyddydau**

3.34 Ers 1993, mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cynnal arolwg blynyddol i gasglu data ar bresenoldeb mewn digwyddiadau celfyddydol a chyfranogiad mewn gweithgareddau artistig [44]. I gasglu’r data hwn, mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn dibynnu ar gyfres o gwestiynau a weinyddir drwy arolwg Omnibws Cymru Beaufort Research Cyf. Mae’r sampl o ymatebwyr i’r arolwg hwn wedi’i gynllunio i fod yn gynrychioliadol o’r boblogaeth oedolion 16 oed a hŷn sy’n byw yng Nghymru.

[44] Mae rhifynnau 2020 a 2019 ar gael yn: Arolygon Blynyddol | Cyngor Celfyddydau Cymru

3.35 O ran presenoldeb mewn digwyddiadau celfyddydol, mae canran yr oedolion a fynychodd ddigwyddiadau celfyddydol unwaith neu fwy mewn blwyddyn benodol ar gael ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2010 a 2020, fel y dangosir yn y tabl isod.

**Tabl 3.8: Mynychu digwyddiadau celfyddydol unwaith neu fwy mewn blwyddyn benodol**

| Blwyddyn | % ymatebwyr yn mynychu digwyddiadau celfyddydol |
|---|---|
| 2010 | 79.20% |
| 2011 | 74.40% |
| 2012 | 76.30% |
| 2013 | 75.10% |
| 2014 | 79.80% |
| 2015 | 78.60% |
| 2016 | 78.10% |
| 2017 | 80.70% |
| 2018 | 84.60% |
| 2019 | 86.80% |
| 2020 | 75.10% |

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru 2020: Ymgysylltiad Oedolion yn y Celfyddydau

3.36 Yn 2020, mynychodd mwy na 3 o bob 4 oedolyn (75.1%) ddigwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith yn y flwyddyn flaenorol. Mae’r ffigur cyfatebol ar gyfer 2019 yn sylweddol uwch (86.8%), sy’n cynrychioli uchafbwynt tuedd gynyddol o bresenoldeb yn y celfyddydau, a gynyddodd yn raddol o 2016 i 2019. Mae ffigur 2020 yn dod â’r lefelau presenoldeb yn ôl i’r rhai a welwyd yn 2013. Fodd bynnag, mae’r adroddiad yn nodi na ellir cymharu data 2020 tebyg at ei debyg â blynyddoedd blaenorol oherwydd y newid mewn methodoleg. Yn benodol, cynhaliwyd yr arolwg ar-lein am y tro cyntaf oherwydd y cyfyngiad a osodwyd gan bandemig Covid-19.

3.37 Mae'n werth nodi bod y ffigur hwn yn cael ei ddylanwadu'n sylweddol gan bresenoldeb mewn dangosiadau ffilm. Os caiff mynychwyr sinema eu heithrio, mae canran yr oedolion sy’n mynychu digwyddiadau celfyddydol o leiaf unwaith y

flwyddyn yn 2020 yn gostwng i 64.1%, gyda'r ffigur cyfatebol ar gyfer 2019 yn 82.4%.

3.38 O ran cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, mae'r tabl canlynol yn dangos canran yr oedolion a gymerodd ran unwaith y flwyddyn neu'n amlach mewn unrhyw weithgareddau artistig o 2010 i 2020.

**Tabl 3.9: Cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach rhwng 2010 a 2020.**

| Blwyddyn | % ymatebwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol |
|---|---|
| 2010 | 30.4% |
| 2011 | 28.9% |
| 2012 | 40.2% |
| 2013 | 34.9% |
| 2014 | 40.1% |
| 2015 | 41.2% |
| 2016 | 44.1% |
| 2017 | 45.8% |
| 2018 | 45.6% |
| 2019 | 49.3% |
| 2020 | 56.6% |

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru 2020: Ymgysylltiad Oedolion yn y Celfyddydau

3.39 Bu carreg filltir arwyddocaol yn 2020 oherwydd am y tro cyntaf cymerodd mwy na hanner yr ymatebwyr ran mewn gweithgareddau celfyddydol o leiaf unwaith yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r cyflawniad hwn yn benllanw tueddiad cyson ar i fyny sydd wedi parhau bron yn ddi-dor ers 2014. Serch hynny, fel yn achos mynychu digwyddiadau celfyddydol, mae'n bwysig bod yn ofalus wrth ddehongli ffigur 2020, gan ystyried y newid yn y cyd-destun a'r fethodoleg a achoswyd gan y pandemig Covid-19.

3.40 Mae'r Arolwg Omnibws yn rhoi'r posibilrwydd i ymchwilio i'r data presenoldeb a chyfranogiad drwy eu segmentu ar sail nodweddion unigol amrywiol – gan gynnwys

gradd gymdeithasol, oedran, rhyw, rhanbarth a’r iaith Gymraeg – yn ogystal ag ar sail y gwahanol gelfyddydau dan sylw[45]. Bydd rhai o'r dimensiynau hyn yn cael eu harchwilio yn yr adran Blaenoriaethau Polisi.

3.41 Yn ogystal, mae Arolwg Omnibws Plant Beaufort Research, a gynhelir yn flynyddol ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru, yn casglu data ar bresenoldeb a chyfranogiad yn y celfyddydau ymhlith plant a phobl ifanc, gan ddilyn dull tebyg i'r hyn a ddefnyddir ar gyfer oedolion. Mae ffigurau manwl ar bresenoldeb a chyfranogiad plant yn ymestyn o 2010 i 2019 ar gael yn adroddiad Arolwg Omnibws Plant 2019.[46]

3.42 Mae Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru yn cynnig ffynhonnell werthfawr arall o ddata ar bresenoldeb mewn digwyddiadau celfyddydol. Dengys adroddiad Uchafbwyntiau Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru 2021/22[47]gyfanswm o 2,862,837 presenoldeb ar draws dros 48,000 o ddigwyddiadau a drefnwyd gan sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru. Mae'r arolwg yn casglu data ar bresenoldeb mewn gwahanol fathau o ddigwyddiadau a sesiynau cyfranogol, tra hefyd yn casglu gwybodaeth am nodweddion y gynulleidfa. Fodd bynnag, mae'r adroddiad uchafbwyntiau yn cyflwyno'r dangosyddion hyn yn bennaf ar ffurf graffigol, nad yw'n caniatáu echdynnu ffigurau manwl gywir.

[45] Y ffurfiau ar gelfyddyd ar gyfer mynychu digwyddiadau celf yw: sinema; sioeau cerdd (nid opera); opera; bale; perfformiadau dawns gyfoes; dramâu; cyngherddau neu ddatganiadau cerddoriaeth glasurol; cyngherddau neu berfformiadau jazz; cerddoriaeth werin, draddodiadol neu fyd-eang; cerddoriaeth fyw arall; orielau neu arddangosfeydd celf neu grefft; darlleniadau, adrodd straeon a digwyddiadau llenyddol eraill; carnifalau a chelfyddydau stryd; gwyliau celfyddydol. Y ffurfiau ar gelfyddyd ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol yw: cerddoriaeth; drama neu weithgaredd theatrig; dawns; gwneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth; celf a chrefft gweledol; ysgrifennu creadigol; celfyddydau digidol.
[46]Ar gael yn: [Arolygon Blynyddol | Cyngor Celfyddydau Cymru]
[47]Ar gael yn: [Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru | Cyngor Celfyddydau Cymru]

# 4. Sefydliadau

4.1 Mae’r adran hon yn cyflwyno gwybodaeth am nifer a dosbarthiad daearyddol sefydliadau neu safleoedd o fewn pob un o’r pum is-sector dan sylw. Nid oes ffynhonnell ddata unedig sy'n cwmpasu pob un o'r pum is-sector sydd ar gael.

**Amgueddfeydd**

4.2 Yn ôl yr adroddiad Sbotolau ar Amgueddfeydd 2020[48], mae 160 o sefydliadau yng Nghymru y gellid eu galw’n amgueddfeydd neu sy’n diffinio eu hunain fel amgueddfeydd. O’r 160 o amgueddfeydd hyn, mae gan 106 statws ‘achrededig’[49].

4.3 Mae rhestr o amgueddfeydd achrededig ac orielau yng Nghymru[50] – a ddiweddarwyd ddiwethaf ym mis Ebrill 2021 gyda chyfrif o 101 o sefydliadau[51] – yn rhoi trosolwg o’r nifer a’r mathau o amgueddfeydd achrededig. Mae’r rhain yn cynnwys 29 amgueddfa awdurdod lleol, 45 amgueddfa annibynnol, 7 Amgueddfa Genedlaethol, 13 amgueddfa yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, 4 amgueddfa gatrodol a 3 amgueddfa prifysgol. Darperir dosbarthiad daearyddol y 101 amgueddfa hyn yn y tabl canlynol.

[48] Ar gael yn: Sbotolau ar amgueddfeydd 2020 | LLYW.CYMRU.
[49]Mae Achredu Amgueddfeydd yn gynllun partneriaeth DU sy’n cael ei redeg gan Gyngor Celfyddydau Lloegr ac yn cael ei reoli gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru. Nod y cynllun yw sicrhau bod amgueddfeydd yn bodloni safonau proffesiynol penodol mewn meysydd fel llywodraethu, rheoli casgliadau, gwasanaethau ymwelwyr, ac addysg. Mae'r broses achredu yn golygu bod amgueddfa'n cyflwyno cais sy'n darparu tystiolaeth o'i chydymffurfiaeth â'r safonau achredu. Asesir y dystiolaeth hon gan banel o arbenigwyr sy'n adolygu polisïau, gweithdrefnau ac arferion yr amgueddfa. Os yw'r amgueddfa'n bodloni'r meini prawf gofynnol, rhoddir statws achrededig iddi. Mae achredu yn broses wirfoddol, ac nid yw pob amgueddfa yng Nghymru yn dewis ei dilyn.
[50]Ar gael yn:Amgueddfeydd Achrededig | LLYW.CYMRU
[51] Mae’r rhestr hefyd yn cynnwys 9 amgueddfa sydd â ‘statws gweithio tuag at achredu’, ond nid yw’n hysbys pa rai o’r rhain sydd wedi cael yr achrediad, i gyrraedd y cyfanswm o 106 a nodwyd yn adroddiad diweddaraf Sbotolau ar Amgueddfeydd.

**Tabl 4.1: Nifer yr amgueddfeydd achrededig fesul awdurdod lleol, 2021.**

| Awdurdod lleol | Nifer yr amgueddfeydd |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 5 |
| Penybont-ar-Ogwr | 1 |
| Caerffili | 1 |
| Caerdydd | 6 |
| Sir Gaerfyrddin | 6 |
| Ceredigion | 4 |
| Conwy | 5 |
| Sir Ddinbych | 6 |
| Sir y Fflint | 4 |
| Gwynedd | 13 |
| Ynys Môn | 4 |
| Merthyr Tudful | 2 |
| Sir Fynwy | 5 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1 |
| Casnewydd | 3 |
| Sir Benfro | 7 |
| Powys | 12 |
| Rhondda Cynon Taf | 5 |
| Abertawe | 4 |
| Torfaen | 3 |
| Bro Morgannwg | 1 |
| Wrecsam | 3 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Llyfrgelloedd**

4.4 Bu CILIP Cymru Wales yn gweithio gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru a LibrariesHacked i greu set ddata weledol o lyfrgelloedd yng Nghymru [52]. Yn ôl y set ddata hon, mae cyfanswm o 378 o lyfrgelloedd ledled Cymru. O'r rhain, mae 259 yn llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae'r 99 llyfrgell sy'n weddill wedi'u rhannu rhwng llyfrgelloedd iechyd, llyfrgelloedd addysg uwch a llyfrgelloedd addysg bellach[53]. Dengys y tabl isod nifer y llyfrgelloedd cyhoeddus ym mhob awdurdod lleol.

**Tabl 4.2: Nifer y llyfrgelloedd cyhoeddus fesul awdurdod lleol, 2023.**

| Awdurdod lleol | Nifer y llyfrgelloedd |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 6 |
| Penybont-ar-Ogwr | 13 |
| Caerffili | 18 |
| Caerdydd | 21 |
| Sir Gaerfyrddin | 21 |
| Ceredigion | 6 |
| Conwy | 13 |
| Sir Ddinbych | 8 |
| Sir y Fflint | 10 |
| Gwynedd | 18 |
| Ynys Môn | 10 |
| Merthyr Tudful | 7 |
| Sir Fynwy | 7 |
| Castell-nedd Port Talbot | 17 |
| Casnewydd | 10 |
| Sir Benfro | 12 |
| Powys | 18 |
| Rhondda Cynon Taf | 18 |

[52] Ar gael yn: Libraries in Wales - CILIP: the library and information association
[53] Mae rhestr a map o holl lyfrgelloedd Cymru ar gael yn: Wikidata Query Service

| | |
|---|---|
| Abertawe | - |
| Torfaen | 4 |
| Bro Morgannwg | 10 |
| Wrecsam | 12 |

Ffynhonnell: CILIP

4.5 Mae’r tabl yn nodi absenoldeb llyfrgelloedd cyhoeddus yn Abertawe, sy’n groes i’r wybodaeth a ddogfennir yn Adroddiadau Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus.[54] Awgryma hyn efallai fod y rhestr a luniwyd gan CILIP yn anghyflawn.

**Archifau**

4.6 Ar wefan Archif Cymru, mae modd cyrchu rhestr o holl gadwrfeydd Cymru [55], y mae cyfanswm o 22 o archifau ar eu cyfer ledled y wlad. Dengys y tabl isod nifer yr archifau ar gyfer pob awdurdod lleol lle ceir o leiaf un archif.

**Tabl 4.3: Nifer yr archifau fesul awdurdod lleol, 2023.**

| **Awdurdod lleol** | **Nifer yr archifau** |
|---|---|
| Caerdydd | 3 |
| Sir Gaerfyrddin | 2 |
| Ceredigion | 3 |
| Conwy | 1 |
| Sir y Fflint | 1 |
| Gwynedd | 3 |
| Ynys Môn | 1 |
| Castell-nedd Port Talbot | 2 |
| Casnewydd | 1 |
| Sir Benfro | 1 |
| Powys | 2 |
| Abertawe | 1 |

Ffynhonnell: Archifau Cymru

[54] Ar gael yn: Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2019 i 2020 | LLYW.CYMRU.
[55] Ar gael yn: Cadwrfeydd Archifau Cymru – Archifau Cymru

**Treftadaeth**

4.7 Dengys adroddiad Heritage Counts Cymru 2018-19[56] bod gan Gymru gyfanswm o 30,015 o adeiladau rhestredig a 4,198 o henebion cofrestredig. O wefan Cadw, mae'n bosibl echdynnu'r rhestr gyflawn o safleoedd treftadaeth sydd o dan eu rheolaeth [57], sy'n cynnwys cyfanswm o 122 o adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig (er mai cyfanswm cyfrif swyddogol eiddo Cadw yw 131), y rhan fwyaf ohonynt yn agored i'r cyhoedd. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer o eiddo Cadw ym mhob ardal awdurdod lleol lle mae o leiaf un safle treftadaeth.

**Tabl 4.4: Nifer safleoedd treftadaeth Cadw fesul awdurdod lleol, 2023**

| **Awdurdod lleol** | **Nifer y safleoedd treftadaeth** |
|---|---|
| Penybont-ar-Ogwr | 2 |
| Caerffili | 1 |
| Caerdydd | 1 |
| Sir Gaerfyrddin | 7 |
| Ceredigion | 2 |
| Conwy | 6 |
| Sir Ddinbych | 12 |
| Sir y Fflint | 5 |
| Gwynedd | 13 |
| Ynys Môn | 22 |
| Sir Fynwy | 14 |
| Castell-nedd Port Talbot | 2 |
| Casnewydd | 4 |
| Sir Benfro | 12 |
| Powys | 6 |
| Rhondda Cynon Taf | 1 |
| Abertawe | 5 |

[56]Ar gael yn: Adroddiad Heritage Counts 2019 | Cadw (llyw.cymru)
[57] Ar gael yn: Lleoedd i ymweld â nhw | Cadw (llyw.cymru)

| | |
|---|---|
| Torfaen | 1 |
| Bro Morgannwg | 6 |

Ffynhonnell: Cadw

**Celfyddydau**

4.8 Er mwyn cael gwybodaeth am nifer y cwmnïau yn y sector celfyddydau, mae Atlas Economi Greadigol Cymru a ddatblygwyd gan Clwstwr [58] yn werthfawr. Mae'r Atlas yn archwilio dosbarthiad daearyddol a graddfa'r diwydiannau creadigol ledled Cymru, wedi'u dadansoddi fesul is-sector creadigol. Mae'r data a ddefnyddir yn yr Atlas yn deillio o gronfa ddata ORBIS, adnodd helaeth ar gyfer gwybodaeth gymaradwy am gwmnïau preifat. Mae'r Atlas yn darparu data ar nifer y cwmnïau, nifer y gweithwyr a throsiant yn naw 'Diwydiannau Creadigol' DCMS'.[59]

4.9 Mae'r tabl a ganlyn yn dangos nifer y cwmnïau yn y sector 'Cerddoriaeth, y celfyddydau perfformio a gweledol' ar draws awdurdodau lleol.

**Tabl 4.5: Nifer y cwmnïau yn y sector 'Cerddoriaeth, perfformio a'r celfyddydau gweledol' fesul awdurdod lleol, 2023.**

| **Awdurdod lleol** | **Nifer y cwmnïau** |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 18 |
| Penybont-ar-Ogwr | 39 |
| Caerffili | 42 |
| Caerdydd | 382 |
| Sir Gaerfyrddin | 77 |
| Ceredigion | 40 |
| Conwy | 50 |
| Sir Ddinbych | 42 |
| Sir y Fflint | 3 |
| Gwynedd | 69 |

[58] Ar gael yn: Creative Economy Atlas Cymru
[59] 'Diwydiannau Creadigol' DCMS yw:1) hysbysebu a marchnata; 2) pensaernïaeth; 3) crefftau; 4) dylunio a ffasiwn dylunydd; 5) ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth; 6) TG, meddalwedd a gwasanaethau cyfrifiadurol; 7) cyhoeddi; 8) amgueddfeydd, orielau a llyfrgelloedd; 9) cerddoriaeth, perfformio a'r celfyddydau gweledol. Mae gwybodaeth am y codau SIC07 sy'n gysylltiedig â'r dosbarthiadau sector hyn ar gael yn: DCMS Sectors Economic Estimates Methodology - GOV.UK

| | |
|---|---|
| Ynys Môn | 30 |
| Merthyr Tudful | 6 |
| Sir Fynwy | 66 |
| Castell-nedd Port Talbot | 31 |
| Casnewydd | 57 |
| Sir Benfro | 55 |
| Powys | 87 |
| Rhondda Cynon Taf | 63 |
| Abertawe | 112 |
| Torfaen | 17 |
| Bro Morgannwg | 92 |
| Wrecsam | 37 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

4.10 Mae'n bwysig cydnabod bod cwmpas y sector 'Cerddoriaeth, perfformio a'r celfyddydau gweledol' yn rhannol wahanol i'r diffiniad o sector y celfyddydau a ddefnyddir mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn wrth gyflwyno data o ystadegau'r DCMS. Yn benodol, mae'r adroddiad hwn yn mabwysiadu'r diffiniad o'r sector 'Celfyddydau' fel y nodir yn Nhabl 1.1, sy'n rhan o Sector Diwylliannol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, tra bod Atlas Economi Creadigol Cymru yn mabwysiadu'r diffiniad o'r sector 'Cerddoriaeth, celfyddydau perfformio a gweledol' sy'n rhan o'r Ddiwydiannau Creadigol DCMS[60]. Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau gategori o ran y gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys fel a ganlyn:

- Mae'r sector "Celfyddydau" – rhan o Sector Diwylliannol DCMS – yn cynnwys pob gweithgaredd economaidd o dan y pedwar cod SIC07 canlynol, fel y manylir yn Nhabl 1.1:
  - 9001 – Celfyddydau perfformio
  - 9002 – Gweithgareddau cefnogol i'r celfyddydau perfformio
  - 9003 – Creu artistig
  - 9004 – Gweithredu cyfleusterau celfyddydol

[60] Mae rhagor o wybodaeth am y pwnc hwn ar gael yn: DCMS Sectors Economic Estimates Methodology - GOV.UK

- Mae’r sector ‘Cerddoriaeth, perfformio a’r celfyddydau gweledol’ – rhan o Diwydiannau Creadigol DCMS – yn cynnwys yr un pedwar cod SIC07 ag uchod, ynghyd â dau god ychwanegol:
    - 5920 – Gweithgareddau recordio sain a chyhoeddi cerddoriaeth
    - 8552 – Addysg ddiwylliannol

4.11 Felly, mae’r sector ‘Cerddoriaeth, perfformio a’r celfyddydau gweledol’ a ystyrir yn y tabl uchod yn fwy na sector y celfyddydau fel y’i diffinnir yn Nhabl 1.2 a 4.7, gan ei fod hefyd yn cynnwys gweithgareddau sy’n ymwneud ag addysg ddiwylliannol a recordio sain a chyhoeddi cerddoriaeth.

## 5. Blaenoriaethau Polisi

5.1 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r dystiolaeth sydd ar gael ar gyfraniad y sector diwylliant at wyth o flaenoriaethau polisi, y mae llunwyr polisi a rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru wedi nodi sy'n bwysig.

**Effaith amgylcheddol a datgarboneiddio**

5.2 Mae argaeledd data o fewn y ffynonellau a adolygwyd ynghylch effaith amgylcheddol sefydliadau yn y pum is-sector diwylliant a'u hymrwymiad i ddatgarboneiddio yn gyfyngedig iawn. Dim ond yn Uchafbwyntiau Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru 2021-2022[61] y ceir unrhyw ddangosyddion sy'n berthnasol i'r pynciau hyn. Yn ôl yr adroddiad, mae gan 29% o sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru System Fonitro Amgylcheddol (EMS) ar hyn o bryd. Mae mwy na hanner y sefydliadau hyn (53%) wrthi'n gweithio tuag at sefydlu EMS, tra nad oes gan leiafrif o tua 10% unrhyw fwriad i wneud hynny. Yn ogystal, mae'r adroddiad yn datgelu bod gan 85% o sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru bolisi amgylcheddol ar waith.

**Digideiddio a sgiliau digidol**

5.3 Mae argaeledd data ar yr ymdrechion i ddigideiddio o fewn y pum sector diwylliannol yn brin ac yn dameidiog. Mae'r wybodaeth bresennol yn gyfyngedig ac yn amrywio ar draws y gwahanol sectorau, sy'n ei gwneud yn anodd ffurfio dealltwriaeth gynhwysfawr o'r pwnc. Serch hynny, mae rhai ffigurau diddorol ar gael ar gyfer amgueddfeydd, llyfrgelloedd a'r celfyddydau.

*Amgueddfeydd*

5.4 Yn ôl yr adroddiad Sbotolau ar Amgueddfeydd 2020[62], mae gan 95% o'r amgueddfeydd a arolygwyd eu gwefannau eu hunain, tra bod 87% yn defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn weithredol. Yn ddiddorol, mae'r adroddiad yn datgelu bod ymweliadau â gwefannau wedi gostwng o 3.9m yn 2015 i 3.3m ym mlwyddyn yr arolwg. Mewn cyferbyniad, gwelwyd twf sylweddol yn nifer y tanysgrifwyr a'r dilynwyr cyfryngau cymdeithasol - wedi mwy na dyblu o 236,293 yn

---

[61]Ar gael yn: Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru | Cyngor Celfyddydau Cymru
[62]Ar gael yn: Sbotolau ar amgueddfeydd 2020 | LLYW.CYMRU

2015 i 591,808 erbyn 2020. Gallai'r ffigurau hyn awgrymu bod llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn dod yn gynyddol yn gyfrwng mwy effeithiol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd o gymharu â gwefannau.

5.5 Mae Sbotolau ar Amgueddfeydd 2020 hefyd yn nodi mai dim ond 32% o amgueddfeydd a ddywedodd fod cyfran sylweddol o'u casgliadau ar gael ar-lein. Mae'r canfyddiad hwn yn tanlinellu'r angen am ymdrechion pellach i wella hygyrchedd digidol ac ehangu'r hyn a gynigir ar-lein yn y sector amgueddfeydd.

*Llyfrgelloedd*

5.6 Yn dilyn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020[63], mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth am dri dangosydd sy'n ymwneud â hygyrchedd digidol mewn llyfrgelloedd cyhoeddus. Yn gyntaf, rhaid iddynt adrodd a oes gan bob llyfrgell sefydlog o dan eu hawdurdodaeth o leiaf un ddyfais sydd ar gael i'r cyhoedd ar gyfer mynediad i'r rhyngrwyd a mynediad i gynnwys digidol rhwydwaith. Adroddir bod pob awdurdod lleol wedi bodloni'r gofyniad hwn yn 2019/20[64].

5.7 Yn ail, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol adrodd a yw pob llyfrgell sefydlog o dan eu gweinyddiad yn darparu mynediad Wi-Fi, gan alluogi defnyddwyr i gysylltu eu gliniaduron personol neu eu dyfeisiau symudol. Dim ond un awdurdod lleol a fethodd â bodloni'r gofyniad hwn yn 2019/20.

5.8 Yn olaf, rhaid i awdurdodau lleol ddarparu cyfanswm nifer y dyfeisiau sydd ar gael ar gyfer mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd fesul 10,000 o'r boblogaeth. Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno'r dangosydd hwn ar gyfer pob awdurdod lleol yn 2019/20.

[63] Ar gael yn: Mesur y gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus: ein safonau | LLYW.CYMRU

[64] Mwy o wybodaeth ar gael yn: Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2019 i 2020 | LLYW.CYMRU

**Tabl 5.1: Nifer y dyfeisiau mewn llyfrgelloedd sy’n rhoi mynediad cyhoeddus i’r Rhyngrwyd fesul 10,000 o’r boblogaeth fesul awdurdod lleol, 2019/20.**

| **Awdurdod lleol** | **Nifer y llyfrgelloedd** |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 9 |
| Penybont-ar-Ogwr | 6 |
| Caerffili | 14 |
| Caerdydd | 12 |
| Sir Gaerfyrddin | 11 |
| Ceredigion | 7 |
| Conwy | 11 |
| Sir Ddinbych | 10 |
| Sir y Fflint | 7 |
| Gwynedd | 8 |
| Ynys Môn | 9 |
| Merthyr Tudful | 10 |
| Sir Fynwy | 8 |
| Castell-nedd Port Talbot | 6 |
| Casnewydd | 4 |
| Sir Benfro | 12 |
| Powys | 10 |
| Rhondda Cynon Taf | 7 |
| Abertawe | 8 |
| Torfaen | 8 |
| Bro Morgannwg | 9 |
| Wrecsam | 10 |

Ffynhonnell: Adroddiadau Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2019/20

5.9 O ran dyfeisiau y pen sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd, Caerffili sy'n dod i'r amlwg fel yr awdurdod lleol gyda'r nifer uchaf, tra bod Casnewydd yn cofnodi'r nifer

isaf. Mae mwyafrif yr awdurdodau lleol yn cynnig rhwng 8 ac 11 pwynt mynediad i'r rhyngrwyd fesul 10,000 o drigolion yn eu llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae'r ffigurau hyn hefyd ar gael ar gyfer y blynyddoedd 2018/19[65] a 2017/18[66].

*Celfyddydau*

5.10 Mae Uchafbwyntiau Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru 2021/22[67] yn adrodd ar nifer y sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru sy'n defnyddio platfformau cyfryngau cymdeithasol ar gyfer adeiladu cynulleidfaoedd a chyfathrebu, ac i gynnal cynnwys creadigol, fel y dangosir yn y tabl isod.

**Tabl 5.2: Nifer a chanran y sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru sy'n defnyddio platfformau cyfryngau cymdeithasol, 2021/22.**

| | **Defnydd platfform: adeiladu cynulleidfa a chyfathrebu** | | **Defnydd platfform: cynnal cynnwys creadigol** | |
|---|---|---|---|---|
| **Platfform cyfryngau cymdeithasol** | nifer sefydliadau | % sefydliadau | nifer sefydliadau | % sefydliadau |
| Facebook | 60 | 87% | 43 | 62% |
| Twitter | 59 | 86% | 36 | 52% |
| Instagram | 57 | 83% | 41 | 59% |
| SnapChat | 1 | 1% | 1 | 1% |
| YouTube | 34 | 49% | 46 | 67% |
| Vimeo | 11 | 16% | 14 | 20% |
| SoundCloud | 3 | 4% | 13 | 19% |
| Spotify | 4 | 6% | 6 | 9% |
| AM | 12 | 17% | 14 | 20% |
| TikTok | 4 | 6% | 3 | 4% |

Ffynhonnell: Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru

5.11 Ymhlith platfformau cyfryngau cymdeithasol, mae Facebook, Twitter ac Instagram yn sefyll allan fel y dewisiadau mwyaf poblogaidd ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu

[65] Ar gael yn: Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2018 i 2019 | LLYW.CYMRU
[66] Ar gael yn: Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2017 i 2018 | LLYW.CYMRU
[67] Ar gael yn: Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru | Cyngor Celfyddydau Cymru

â'r gynulleidfa, tra bod YouTube yn arwain fel y platfform a ffefrir ar gyfer cynnal cynnwys creadigol.

**Yr Iaith Gymraeg**

5.12 Ar hyn o bryd, dim ond ar gyfer y sectorau llyfrgelloedd a'r celfyddydau y mae data ar gael ynglŷn â chyffredinolrwydd y Gymraeg yn y sector diwylliant – boed mewn perthynas â'r hyn a gynigir yn ddiwylliannol yn y pum is-sector, cyfran y gweithwyr sy'n siarad Cymraeg, neu gynulleidfaoedd mewn digwyddiadau Cymraeg.

*Llyfrgelloedd*

5.13 Yn Adroddiadau Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth am yr hyn a gynigir yn Gymraeg yn ei lyfrgelloedd cyhoeddus. Yn benodol, y ddau ddangosydd yw:

- P'un a gyflawnodd yr awdurdodau lleol naill ai isafswm gwariant o 4% o'r gyllideb ddeunydd ar adnoddau Cymraeg, neu leiafswm o £750 yn ôl 1,000 o boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg, a
- Chyfanswm dosbarthiad adnoddau yn yr iaith Gymraeg yn ôl 1,000 o boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg.

5.14 Yn ôl Adroddiadau Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2019/20[68], bodlonwyd y dangosydd cyntaf gan 18 o'r 22 awdurdod lleol. O ran yr ail ddangosydd, mae'r tabl canlynol yn adrodd ar ddosbarthiad adnoddau Cymraeg y pen ar gyfer pob awdurdod lleol yn 2019/20.

[68] Ar gael yn: Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2019 i 2020 | LLYW.CYMRU

**Tabl 5.3: Cyfanswm dosbarthiad adnoddau yn y Gymraeg yn ôl 1,000 o boblogaeth breswyl sy’n siarad Cymraeg fesul awdurdod lleol, 2019/20.**

| Awdurdod lleol | Nifer y llyfrgelloedd |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 311 |
| Penybont-ar-Ogwr | 660 |
| Caerffili | 493 |
| Caerdydd | 928 |
| Sir Gaerfyrddin | 671 |
| Ceredigion | 1,134 |
| Conwy | 853 |
| Sir Ddinbych | 1,468 |
| Sir y Fflint | 528 |
| Gwynedd | 913 |
| Ynys Môn | 853 |
| Merthyr Tudful | 406 |
| Sir Fynwy | 333 |
| Castell-nedd Port Talbot | 356 |
| Casnewydd | 351 |
| Sir Benfro | 361 |
| Powys | 614 |
| Rhondda Cynon Taf | 565 |
| Abertawe | 622 |
| Torfaen | 853 |
| Bro Morgannwg | 829 |
| Wrecsam | 862 |

Ffynhonnell: Adroddiadau Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2019/20

5.15 Mae Sir Ddinbych yn sefyll allan fel yr awdurdod lleol sydd â'r nifer uchaf o adnoddau Cymraeg yn ôl 1,000 o'r boblogaeth Gymraeg (1,468), ac yna

Ceredigion, gyda 1,134 o adnoddau. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill yn dod o fewn yr ystod o 500 i 1,000 o adnoddau Cymraeg yn ôl 1,000 o boblogaeth Gymraeg yn eu llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae'r ystadegau hyn hefyd ar gael ar gyfer y blynyddoedd 2018/19[69] a 2017/18[70].

*Celfyddydau*

5.16 Mae Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru yn casglu'n flynyddol ddwy set o ddangosyddion sy'n berthnasol i ddeall pa mor gyffredin yw'r Gymraeg yn sector y celfyddydau. Mae'n ofynnol i sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru adrodd ar nifer y digwyddiadau a sesiynau cyfranogol a gynhelir yn Gymraeg, yn ogystal â nifer y gweithwyr, gwirfoddolwyr ac aelodau bwrdd sy'n siarad Cymraeg. Ceir yr ystadegau hyn yn Adroddiadau Blynyddol yr Iaith Gymraeg[71].

5.17 Mae’r tabl isod yn cyflwyno nifer y digwyddiadau a sesiynau a gynhaliwyd yn Gymraeg, ynghyd â’r nifer cyfatebol o gyfranogwyr.

**Tabl 5.4: Nifer y digwyddiadau a sesiynau cyfranogol gan sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru a gynhaliwyd yn Gymraeg a chyfranogwyr perthynol.**

| | **Digwyddiadau** | | **Sesiynau cyfranogol** | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Mynychwyr | Nifer | Cyfranogwyr |
| 2020/21 | 53 | 14,034 | 3,497 | 103,729 |
| 2019/20 | 1,155 | 87,077 | 3,483 | 74,993 |
| 2018/19 | 665 | 73,097 | 9,095 | 91,783 |
| 2017/18 | 1,004 | 110,038 | 6,371 | 123,103 |
| 2016/17 | 1,074 | 101,053 | 9,973 | 191,620 |
| 2015/16 | 995 | 128,312 | 7,829 | 156,778 |
| 2014/15 | 869 | 90,854 | 6,268 | 130,350 |

Ffynhonnell: Adroddiadau Blynyddol yr Iaith Gymraeg

5.18 Yn ystod y cyfnod o saith mlynedd dan sylw, bu amrywiadau sylweddol yn nifer y digwyddiadau a’r sesiynau cyfranogol, yn ogystal â nifer y cyfranogwyr a gymerodd

[69]Ar gael yn: Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2019 i 2020 | LLYW.CYMRU
[70]Ar gael yn: Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2017 i 2018 | LLYW.CYMRU
[71]Ar gael yn: Adroddiadau Blynyddol yr Iaith Gymraeg | Cyngor Celfyddydau Cymru

ran. Mae'r amrywiadau hyn yn ei gwneud hi'n heriol dirnad unrhyw dueddiadau clir. Fodd bynnag, mae sylw nodedig yn dod i'r amlwg wrth archwilio effaith Covid-19, fel yr adlewyrchir yn y ffigurau ar gyfer 2021/22. Er gwaethaf y gostyngiad sylweddol yn nifer y digwyddiadau dros y cyfnod hwn, ni chafodd nifer y sesiynau cyfranogol eu heffeithio. Mae hyn yn awgrymu bod cynnal sesiynau cyfranogol ar-lein yn debygol o fod yn fwy dichonadwy, gan alluogi parhad gweithgareddau o'r fath er gwaethaf y cyfyngiadau a osodwyd gan y pandemig. Nid yw Adroddiadau Blynyddol yr Iaith Gymraeg yn adrodd ar gyfanswm y digwyddiadau a sesiynau cyfranogol, felly ni ellir pennu cyfran y gweithgareddau hyn a gynhelir yn Gymraeg.

5.19 O ran y gweithlu, mae Adroddiadau Blynyddol yr Iaith Gymraeg yn darparu gwybodaeth am gyfanswm cyfrif gweithwyr, gwirfoddolwyr ac aelodau bwrdd, ac ar nifer yr unigolion ym mhob categori sy’n siarad Cymraeg. Mae'r tabl isod yn cyflwyno canrannau'r gweithwyr Cymraeg eu hiaith ym mhob categori. Nid oes data ynghylch nifer y gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg ar gael cyn 2018/19.

**Tabl 5.5: Canran y gweithwyr, gwirfoddolwyr ac aelodau bwrdd sy’n siarad Cymraeg yn sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru.**

| | **% o weithwyr sy’n siarad Cymraeg** | **% o wirfoddolwyr sy’n siarad Cymraeg** | **% o aelodau Bwrdd sy’n siarad Cymraeg** |
|---|---|---|---|
| 2020/21 | 33% | 26.7% | 43.2% |
| 2019/20 | 30.5% | 19.2% | 38.4% |
| 2018/19 | 21.5% | 15.2% | 36.9% |
| 2017/18 | 30.3% | - | 33.4% |
| 2016/17 | 33.3% | - | 31.9% |
| 2015/16 | 25.5% | - | 29.5% |
| 2014/15 | 27% | - | 28.9% |

Ffynhonnell: Adroddiadau Blynyddol yr Iaith Gymraeg

5.20 Dros y blynyddoedd, mae cyfran y gweithwyr sy’n siarad Cymraeg wedi profi mân amrywiadau, gyda’r ganran uchaf yn 2016/17 a 2020/21, lle roedd tua un o bob tri gweithiwr yn siarad Cymraeg. Mewn cyferbyniad, mae canran yr aelodau bwrdd sy'n siarad Cymraeg wedi dangos twf cyson dros y cyfnod o saith mlynedd dan

sylw, gan fod yn fwy na 43% yn 2020/21. Yn yr un modd, mae cyfran y gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg wedi gweld twf sylweddol. Fodd bynnag, gan fod data ar wirfoddolwyr yn ymestyn dros dair blynedd yn unig, byddai'n annoeth gwneud datganiadau terfynol am dueddiadau hirdymor.

**Effaith ar lesiant**

5.21 Yn rhifynnau 2018/19 a 2021/22, cynhwysodd Arolwg Cenedlaethol Cymru gyfres o gwestiynau am agweddau tuag at y celfyddydau a diwylliant. Roedd dau o'r cwestiynau hyn yn casglu safbwyntiau'r ymatebwyr ar effeithiau llesiant canfyddedig ymgysylltu â gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol. Mae'r tabl isod yn cyflwyno'r cwestiynau hyn ynghyd â'r lefelau cytundeb cyfatebol a fynegwyd gan gyfranogwyr yn arolwg 2021/22.

**Tabl 5.6: Agweddau at y celfyddydau a diwylliant: yr ymatebwyr yn cytuno â set o ddatganiadau, 2021/22.**

| Disgrifiad o agwedd | Cytuno'n gryf | Tueddu i gytuno | Niwtral | Tueddu i anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yn helpu pobl i fagu hyder. | 57% | 34% | 8% | 1% | 0% |
| Mae celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol yn helpu i gyfoethogi ansawdd fy mywyd. | 33% | 30% | 16% | 14% | 8% |

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2021/22

5.22 Roedd dros 90% o'r ymatebwyr yn cytuno ynghylch effaith gadarnhaol gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol o ran meithrin hyder ymhlith unigolion. Mynegodd mwyafrif sylweddol (66%) hefyd gytundeb ynghylch gallu'r celfyddydau a diwylliant i wella ansawdd bywyd yn gyffredinol.

5.23 Mae gwybodaeth ychwanegol am effaith gweithgareddau diwylliannol ar lesiant buddiolwyr o ffynonellau sector-benodol ar gael ar gyfer y sectorau amgueddfeydd a llyfrgelloedd.

*Amgueddfeydd*

5.24 Yn ôl yr adroddiad Sbotolau ar Amgueddfeydd 2020[72], rhoddwyd sawl cwestiwn i mewn yn arolwg Sbotolau i asesu effaith amgueddfeydd ar lesiant ymwelwyr. Fodd bynnag, dim ond 13 o amgueddfeydd a nododd eu bod wedi defnyddio Pecyn Cymorth Mesurau Llesiant Amgueddfeydd UCL - set o raddfeydd mesur a ddefnyddir i asesu lefelau llesiant sy'n deillio o gymryd rhan mewn gweithgareddau amgueddfeydd ac orielau.[73] Roedd canfyddiadau'r amgueddfeydd hyn yn dangos gwelliannau sylweddol o ran llesiant ymwelwyr. Nododd rhai welliannau mor uchel â 42%, gyda'r mwyafrif o gwmpas 20%.[74]

*Llyfrgelloedd*

5.25 Gan ddilyn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020[75], cynhaliodd pob awdurdod lleol arolwg o oedolion a phlant sy'n defnyddio llyfrgelloedd, o leiaf unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol adrodd ar y canlynol:

a) canran yr oedolion sy'n meddwl bod defnyddio'r llyfrgell wedi eu helpu i ddatblygu sgiliau newydd;
b) canran y bobl ifanc sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a darganfod pethau;
c) canran yr oedolion sydd wedi dod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol am iechyd a llesiant yn y llyfrgell;
d) canran yr oedolion sy'n gweld y llyfrgell fel lle pleserus, diogel a chynhwysol;
e) canran yr oedolion sy'n meddwl bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau.

5.26 Mae'r tabl a gyflwynir isod yn darparu ystadegau disgrifiadol sy'n crynhoi canlyniadau'r arolwg a ddarparwyd gan bob awdurdod lleol yn Adroddiadau Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2019/20. Rhaid nodi na chasglodd pob awdurdod lleol ddata ar gyfer pob dangosydd.

---

[72]Ar gael yn: Sbotolau ar amgueddfeydd 2020 | LLYW.CYMRU
[73] Mae rhagor o wybodaeth am Becyn Cymorth Mesurau Llesiant Amgueddfeydd UCL ar gael yn: UCL Museum Wellbeing Measures | UCL CULTURE - UCL – University College London
[74] Nid yw adroddiad Sbotolau ar Amgueddfeydd 2020 yn rhoi unrhyw esboniad ychwanegol o'r niferoedd hyn.
[75]Ar gael yn: Mesur y gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus: ein safonau | LLYW.CYMRU

**Tabl 5.7: Effaith llyfrgelloedd ar lesiant oedolion a phlant – ystadegau disgrifiadol o ganlyniadau arolygon, 2019/20.**

| | **Canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r datganiadau ym mhob awdurdod lleol** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfartalog | Isaf | Canolrif | Uchaf |
| a) datblygu sgiliau newydd – oedolion | 75% | 25% | 83% | 94% |
| b) helpu i ddarganfod pethau – pobl ifanc | 90% | 60% | 93% | 97% |
| c) gwybodaeth iechyd a llesiant – oedolion | 69% | 38% | 69% | 96% |
| d) lle pleserus, diogel a chynhwysol – oedolion | 96% | 90% | 97% | 100% |
| e) gwneud gwahaniaeth i'w bywyd – oedolion | 85% | 41% | 89% | 99% |

Ffynhonnell:Adroddiadau Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2019/20

5.27 Mae'r data a gyflwynir yn y tabl yn dangos bod llyfrgelloedd yn cael eu hystyried gan y mwyafrif o unigolion fel mannau pleserus, diogel a chynhwysol sy'n cyfrannu at ddysgu a darganfod gwybodaeth. Ar gyfartaledd, mae tua 85% o oedolion yn credu bod llyfrgelloedd yn cael effaith gadarnhaol ar eu bywydau, tra dywedodd tua 3 o bob 4 oedolyn fod llyfrgelloedd wedi eu cynorthwyo i ennill sgiliau newydd. Y canfyddiad o lyfrgelloedd fel ffynonellau gwybodaeth dibynadwy ar gyfer iechyd a llesiant oedd â'r lefel isaf o gytundeb ymhlith ymatebwyr.

**Cyfrannu at yr economi**

5.28 Mae cyfres Amcangyfrifon Economaidd Sectorau DCMS[76] wedi cyhoeddi datganiad ystadegol yn flynyddol rhwng 2018 i 2021 i ddarparu amcangyfrif o gyfraniad economaidd y sectorau o dan ei gylch gwaith, fel y'i mesurir gan y gwerth ychwanegol crynswth (GYC). Mae GYC yn mesur cyfraniad pob cynhyrchydd, diwydiant neu sector unigol i'r economi.

5.29 Mae DCMS yn defnyddio dwy ffynhonnell ddata i ddarparu GYC rhanbarthol ar lefel is-sector, sef tablau cytbwys Gwerth Ychwanegol Crynswth Rhanbarthol y Swyddfa

[76] Ar gael yn: DCMS Sectors Economic Estimates - GOV.UK

Ystadegau Gwladol ac amcangyfrifon GYC yr Arolwg Busnes Blynyddol (ABS) heb ei atal. Yn natganiad ystadegol GYC rhanbarthol diweddaraf DCMS[77], darperir data GYC ar gyfer y pum is-sector diwylliannol dan sylw[78] am bob blwyddyn rhwng 2010 a 2019, fel y gwelir yn y tabl isod.

**Tabl 5.8: GYC Cymru fesul is-sector diwylliannol, wedi'i fynegi mewn £ miliwn[79].**

| | Celfyddydau | Amgueddfeydd ac orielau | Llyfrgelloedd ac archifau | Gweithredu safleoedd hanesyddol ac atyniadau tebyg i ymwelwyr |
|---|---|---|---|---|
| 2019 | £87 | £18 | £6 | c |
| 2018 | £85 | £18 | £7 | c |
| 2017 | £88 | £15 | £8 | c |
| 2016 | £93 | £13 | £6 | c |
| 2015 | £112 | £16 | £6 | c |
| 2014 | £109 | £17 | £6 | £14 |
| 2013 | £123 | £17 | £9 | c |
| 2012 | £116 | £16 | £8 | c |
| 2011 | £88 | £18 | £11 | c |
| 2010 | £89 | £19 | £11 | £7 |

Ffynhonnell: Amcangyfrifon Economaidd Sector DCMS

5.30 Amcangyfrifir bod sector y celfyddydau wedi cyfrannu £87 miliwn at economi Cymru yn 2019, ac yna amgueddfeydd (£18 miliwn) a llyfrgelloedd ac archifau (£6 miliwn). Mae data ar gyfer y sector treftadaeth yn cael ei atal er mwyn osgoi datgelu, gyda'r ffigur diweddaraf yn adlewyrchu cyfraniad o £14 miliwn yn 2014[80]. Nid yw arsylwi ar ffigurau GYC dros amser yn awgrymu unrhyw batrymau na thueddiadau canfyddadwy, ac eithrio cynnydd nodedig yng nghyfraniad y sector celfyddydau

[77] Ar gael yn: DCMS Sectors Economic Estimates 2019: Regional GYC - GOV.UK
[78] I gael gwybodaeth am y codau SIC07 sy'n nodi'r pum is-sector o fewn y cwmpas gweler Tabl 1.1.
[79] Mae'r llaw fer 'c' yn dynodi data sydd wedi'i atal er mwyn rhwystro datgelu gwybodaeth ymatebwyr.
[80] Fel yn achos ffigur cyflogaeth yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn yr adran Gweithlu, mae'r nodyn technegol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â datganiad ystadegol GYC rhanbarthol yn nodi, oherwydd y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â chodau SIC, fod y ffigurau a adroddwyd ar gyfer y sector treftadaeth yn debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel o werth y sector hwn.

rhwng 2012 a 2015. Fodd bynnag, dilynwyd y cynnydd hwn gan ddychweliad i lefelau cyn 2012 yn 2016 ac ar ôl hynny.

*Amgueddfeydd*

5.31 Mae Sbotolau ar Amgueddfeydd 2020 yn ceisio amcangyfrif cyfraniad ac effaith yr 85 amgueddfa a gymerodd ran yn yr arolwg ar eu heconomi leol. Trwy ddefnyddio Pecyn Cymorth Effaith Economaidd AIM 2019[81], pennodd yr awduron wariant ymwelwyr, a chyfrifiwyd amcangyfrif o gyfanswm cyfraniad economaidd o dros £134 miliwn[82]. Mae'r adroddiad yn diffinio'r nifer hwn fel ffigur ceidwadol gwaelodlin, gan nad yw'n cynnwys effeithiau cyflogaeth ac effeithiau gwariant ar nwyddau a gwasanaethau. Ymhellach, er mwyn osgoi rhagdybio'r dadansoddiad o fathau o ymwelwyr, defnyddiodd yr awduron fformiwla ymwelwyr a oedd yn trin yr holl ymwelwyr fel trigolion lleol, gan ddiystyru'r gwariant uwch posibl gan ymwelwyr neu ymwelwyr dros nos.

*Treftadaeth*

5.32 Yn ôl Adroddiad Technegol Effeithiau Economaidd Gosod Gwerth ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru [83] a gynhyrchwyd gan ECOTEC yn 2010, mae GYC 'cog mewnol' y sector amgylchedd hanesyddol[84] werth £51.1 miliwn. Mae'r ffigur hwn yn sylweddol uwch na GYC y sector treftadaeth yn 2010 fel y nodir gan ystadegau DCMS, sef cyfanswm o £7 miliwn. Mae'n debygol y gellir priodoli o leiaf rhan o'r gwahaniaeth sylweddol hwn i'r ystod ehangach o asedau a gweithgareddau a gynhwysir o fewn 'cog mewnol' sector yr amgylchedd hanesyddol, sy'n ymestyn y tu

[81]Ar gael yn: AIM Report and Toolkit highlights the significant Economic Impact of the Independent Museum Sector - AIM - Association of Independent Museums

[82] Nid yw'r ffigur hwn i'w gymharu â'r mesur GYC ar gyfer y sector amgueddfeydd a ddarperir yn y paragraff uchod. Mae Pecyn Cymorth Effaith Economaidd AIM yn nodi dull o helpu amgueddfeydd i amcangyfrif yr effaith economaidd a gânt ar eu heconomïau lleol.Yn benodol, nod Sbotolau ar Amgueddfeydd 2020 yw amcangyfrif effaith gros gyffredinol ymweliadau ag amgueddfeydd Cymru o ran cyfraniad economaidd. Mae rhagor o fanylion am y camau sydd ynghlwm wrth yr amcangyfrif hwn ar gael yn: AIM Economic Impact Toolkit August 2019

[83]Ar gael yn: Research | Cadw (llyw.cymru)

[84]Diffinnir 'cog mewnol' sector yr amgylchedd hanesyddol at ddiben yr astudiaeth i gynnwys y sefydliadau hynny y gellir eu hystyried wrth graidd sector yr amgylchedd hanesyddol (h.y., gweithgareddau sy'n ymwneud â gwarchod, gwella a chadwraeth yr amgylchedd sector yr amgylchedd hanesyddol). Yn benodol, mae'r astudiaeth yn canolbwyntio ar yr asedau a ganlyn: henebion cofrestredig / safleoedd archeolegol, adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, gerddi hanesyddol cofrestredig/tirweddau wedi'u dylunio, tirweddau hanesyddol cofrestredig, tirweddau hanesyddol morol, ac amgueddfeydd / canolfannau treftadaeth, lle maent wedi'u lleoli o fewn adeilad/ased hanesyddol.

hwnt i gwmpas yr hyn a ddiffinnir fel ‘Gweithredu safleoedd lleol ac atyniadau tebyg i ymwelwyr' yn ystadegau DCMS.

**Hyrwyddo amrywiaeth/cynhwysiant ac ymgysylltu â grwpiau nodweddion gwarchodedig**

5.33 Mae ‘dangosydd canlyniadau’[85] Arolwg Cenedlaethol Cymru yn caniatáu i ni ddadgyfuno’r ffigurau presenoldeb a gyflwynir yn yr adran yn ôl cyfres o nodweddion unigol, gan gynnwys grŵp oedran, cymhwyster addysgol uchaf, aelwyd mewn amddifadedd materol, rhyw, a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC).

5.34 Un agwedd arbennig o ddiddorol ar y dadansoddiad hwn yw cynnwys MALIC. Offeryn ystadegol yw MALIC a ddefnyddir i fesur a deall lefelau amddifadedd ar draws gwahanol ardaloedd o fewn y wlad. Fe'i cynlluniwyd i ddarparu asesiad cynhwysfawr o amddifadedd cymharol drwy ystyried ffactorau amrywiol sy'n cyfrannu at lesiant cyffredinol unigolyn neu gymuned. Mae'r rhain yn cynnwys incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad at wasanaethau, diogelwch cymunedol a'r amgylchedd ffisegol. Mae pob maes yn cynnwys dangosyddion penodol y rhoddir pwysau gwahanol iddynt yn seiliedig ar eu perthnasedd i amddifadedd. Cyfrifir y dangosyddion hyn drwy ddefnyddio cyfuniad o ddata o ffynonellau amrywiol, gan gynnwys ystadegau swyddogol a data arolwg. Mae MALIC yn cynhyrchu sgôr amddifadedd ar gyfer gwahanol ardaloedd yng Nghymru ar lefel ddaearyddol gymharol fach, yn benodol ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA).

5.35 Mae’r ‘dangosydd canlyniadau’ yn ein galluogi i arsylwi ar lefel yr ymgysylltiad yn y pum is-sector diwylliant fesul cwintel o’r MALIC, fel y dangosir yn y tabl isod.

[85] Gellir lawrlwytho’r ‘dangosydd canlyniadau’ o: [Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau | LLYW.CYMRU]

**Tabl 5.9: Canran yr ymatebwyr sy'n ymwneud â'r celfyddydau a diwylliant ar draws cwintelau'r MALIC, fesul is-sector diwylliannol, 2021/22.**[86]

| | C1 | C2 | C3 | C4 | C5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Wedi ymweld ag amgueddfa | 31% | 38% | 43% | 46% | 52% |
| Wedi defnyddio llyfrgell gyhoeddus | 30% | 31% | 32% | 30% | 37% |
| Wedi defnyddio archif | 3% | 4% | 4% | 5% | 7% |
| Wedi ymweld â safle treftadaeth | 46% | 55% | 65% | 69% | 72% |
| Wedi mynychu digwyddiadau celfyddydol | 60% | 66% | 71% | 73% | 80% |
| Cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol | 15% | 18% | 21% | 19% | 21% |

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019/20

5.36 Mae'r ffigurau hyn yn datgelu patrwm clir: ar draws pob un o'r pum is-sector, mae ymgysylltiad diwylliannol yn tueddu i fod yn is mewn ardaloedd mwy difreintiedig yng Nghymru, tra'n cynyddu'n gyson gyda phob cwintel uwch. I ddangos hyn, dywedodd llai na thraean o ymatebwyr y cwintel mwyaf difreintiedig eu bod wedi ymweld ag amgueddfa yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, tra bod dros 50% o'r ymatebwyr o'r cwintel uchaf wedi ymweld ag amgueddfa. Yn yr un modd, mae canran y bobl sy'n ymweld â safleoedd treftadaeth yn dangos cynnydd nodedig, gan godi o 46% yn y cwintel mwyaf difreintiedig i 72% yn y cwintel lleiaf difreintiedig.

5.37 Fel y nodir uchod, mae'r 'dangosydd canlyniadau' yn caniatáu dadansoddiad tebyg fesul grŵp oedran, cymhwyster addysgol uchaf, aelwydydd mewn amddifadedd materol, a rhyw, ar gyfer pob un o'r pum is-sector diwylliant. I rai, mae dadansoddiadau ychwanegol yn bosibl. Ymhellach, ar gyfer dadansoddiad ehangach, mae'n bosibl gwneud cais a chael mynediad at y microdata llawn a echdynnwyd o Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn caniatáu dadansoddi dangosyddion penodol yn seiliedig ar y set gyflawn o nodweddion unigol a gasglwyd yn yr arolwg.

[86] Mae C1 yn cynrychioli'r 20% o ardaloedd daearyddol mwyaf difreintiedig tra bod C5 yn cynrychioli'r 20% lleiaf difreintiedig

*Amgueddfeydd*

5.38 Mae adroddiad Sbotolau ar Amgueddfeydd 2020 yn rhoi canlyniadau ynghylch p'un a oedd amgueddfeydd wedi trefnu arddangosfeydd, digwyddiadau a gweithgareddau wedi'u targedu ar gyfer 14 o feysydd cydraddoldeb a nodwyd – dywedodd 78 o amgueddfeydd eu bod wedi trefnu mentrau o'r fath. Ymhlith y saith amgueddfa na ddarparodd unrhyw beth penodol, roedd un yn siop oddi ar y safle yn unig, tra bod y gweddill ar gau dros dro am resymau adnewyddu neu resymau eraill. Mae hyn yn dangos bod bron pob amgueddfa wedi ymdrechu i ddarparu ar gyfer grwpiau amrywiol, gan gynnwys gwahanol gymunedau cysylltiedig ag oedran, unigolion LGBTQI, defnyddwyr a dysgwyr y Gymraeg, grwpiau menywod, crefyddau a chredoau amrywiol, unigolion ag anableddau, a phobl dduon, Asiaidd a chymunedau lleiafrifoedd ethnig. Fodd bynnag, mae adroddiad Sbotolau ar Amgueddfeydd 2020 yn rhoi canlyniadau'r cwestiwn ar ffurf graff yn unig, nad yw'n caniatáu echdynnu rhifau penodol at ddiben yr adroddiad hwn.

*Celfyddydau*

5.39 Nod arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru yw casglu ystod amrywiol o wybodaeth yn ymwneud â chynrychioli a chynnwys grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Ni ellir dadansoddi'r data diweddaraf a gasglwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar y testunau hyn, gan ei fod yn cael ei adrodd yn Uchafbwyntiau Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru 2021/22 ar ffurf graffigol nad yw'n caniatáu echdynnu rhifau penodol. Fodd bynnag, mae ffigurau manwl yn ymwneud â'r themâu hyn ar gael ar gyfer y blynyddoedd 2019/20 a 2018/19 yn y set ddata o'r enw 'Data Agored: Monitro Cydraddoldeb Medi 2020'.[87] Mae'r set ddata hon yn cynnig dwy set o ddangosyddion perthnasol:

- Nifer (a chyfran) y digwyddiadau a sesiynau cyfranogol a drefnwyd gan sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru gyda'r nod o ymgysylltu â grŵp nodweddion gwarchodedig penodol.
- Nifer (a chyfran) y gweithwyr ac aelodau bwrdd sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru sy'n perthyn i grwpiau nodweddion gwarchodedig penodol.

[87] Ar gael yn: Data agored | Cyngor Celfyddydau Cymru

5.40 Mae'r tabl isod yn rhoi enghraifft o'r set gyntaf o ddangosyddion, yn benodol ar nifer y perfformiadau mewn lleoliadau cyflwyno sydd â'r nod o ymgysylltu â chyfres o grwpiau nodweddion gwarchodedig.

**Tabl 5.10: Nifer a chyfran y perfformiadau mewn lleoliadau cyflwyno sy'n targedu grwpiau nodweddion gwarchodedig.**

| Grŵp nodweddion gwarchodedig | Nifer o berfformiadau | | Canran o'r holl berfformiadau | |
|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 | 2018/19 | 2019/20 | 2018/19 |
| Anabl | 80 | 43 | 5.4% | 2.4% |
| Heb fod yn wyn | 12 | 33 | 0.8% | 1.8% |
| LHD | 32 | 43 | 2.2% | 2.4% |
| Traws | 1 | 9 | 0.1% | 0.5% |
| Pobl hŷn | 24 | 31 | 1.6% | 1.7% |
| Plant a phobl ifanc | 252 | 124 | 17% | 6.9% |
| Credoau crefyddol | 1 | 1 | 0.1% | 0.1% |
| Merched beichiog a mamau newydd | 10 | 0 | 0.7% | 0% |

Ffynhonnell: Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru

5.41 Mae'r un ffigurau ar gael ar gyfer tri math arall o ddigwyddiad celfyddydol – sef arddangosfeydd, dangosiadau ffilm a pherfformiadau gan gwmnïau teithiol a dau fath o sesiynau cyfranogol (y rhai sydd wedi'u cynllunio ar gyfer plant a phobl ifanc yn benodol a'r rhai sy'n agored i'r cyhoedd).

5.42 Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno cyfran cyfanswm gweithwyr ac aelodau bwrdd sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru sy'n perthyn i grwpiau nodweddion gwarchodedig penodol.

**Tabl 5.11: Cyfran y gweithwyr ac aelodau bwrdd sy'n perthyn i grwpiau nodweddion gwarchodedig.**[88]

| Grŵp nodweddion gwarchodedig | Gweithwyr | | Aelodau'r Bwrdd | |
|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 | 2018/19 | 2019/20 | 2018/19 |
| Anabl | 4.4% | 3.2% | 6.3% | 5.1% |
| Heb fod yn wyn | 4.6% | 5.2% | 4.9% | 4.2% |
| LHD | 7.7% | 6.5% | 8% | 4.8% |
| Traws | c | c | c | c |
| Pobl hŷn | 18.7% | 21.1% | 50.1% | 54.6% |
| Plant a phobl ifanc | 13.5% | n/a | 2% | 0% |
| Credoau crefyddol | 15% | 17.6% | 18.1% | 9.3% |
| Merched beichiog a mamau newydd | 1.5% | 1.3% | c | c |

Ffynhonnell: Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru

5.43 Er mwyn deall rhai o'r ffigurau hyn yn llawn, mae'n bwysig eu cymharu â'r cyfrannau o gyfanswm poblogaeth Cymru sy'n rhannu'r un nodweddion, er nad yw'r wybodaeth hon bob amser ar gael yn hawdd. Er enghraifft, yn ôl Cyfrifiad SYG 2021, nododd tua 77,000 o drigolion Cymru (3% o'r boblogaeth 16 oed neu hŷn) fod ganddynt gyfeiriadedd rhywiol LHD+ ("Hoyw neu Lesbiaidd," "Deurywiol," neu gyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol arall)[89]. Ar sail y ffigur hwn, sef yr agosaf o ran amser at y blynyddoedd a geir yn y tabl, gellir sylwi bod cynrychiolaeth uchel o unigolion LHD+ ymhlith gweithwyr ac aelodau bwrdd sefydliadau Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae hyn yn awgrymu bod sector y celfyddydau yn meithrin amgylchedd cynhwysol ar gyfer y grŵp penodol hwn.

5.44 O ran presenoldeb mewn digwyddiadau celfyddydol a chyfranogiad mewn gweithgareddau celfyddydol, mae Arolwg Omnibws Cymru ar ymgysylltiad oedolion a phlant[90] â'r celfyddydau yn darparu dadansoddiadau o fynychwyr digwyddiadau

[88] Mae data a nodir gan 'c' yn cael ei atal yn fwriadol er mwyn atal unigolion penodol rhag cael eu hadnabod o fewn y setiau data.
[89] Mae ffigurau ar y pwnc hwn ar gyfer Cymru o Gyfrifiad SYG 2021 ar gael yn: Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd yng Nghymru (Cyfrifiad 2021) | LLYW.CYMRU
[90] Y ddau ar gael yn: Arolygon Blynyddol | Cyngor Celfyddydau Cymru

celfyddydol a chyfranogwyr i weithgareddau celfyddydol yn ôl gradd gymdeithasol, oedran a rhyw.

*Archifau*

5.45 Mae'r set ddata sy'n casglu canlyniadau arolwg 2022 o ymwelwyr y DU i archifau a gynhelir gan CIPFA[91] yn ein galluogi i arsylwi ar gyfres o nodweddion defnyddwyr yr arolwg, gan gynnwys rhyw, oedran, ethnigrwydd ac anabledd. Cyflwynir dadansoddiad o ddefnyddwyr archifau yn ôl rhyw ac oedran yn adran yr adroddiad hwn, tra bod canran y defnyddwyr arolwg nad ydynt yn wyn yn cael ei ddarparu yn yr is-adran ganlynol am gynrychiolaeth pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

5.46 Mewn perthynas â defnyddwyr archifau ag anableddau, mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos mai dim ond 12.2% o'r ymatebwyr a ddywedodd fod ganddynt unrhyw gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor. Holodd yr arolwg hefyd am rwystrau posibl a brofwyd gan ymatebwyr ag anableddau wrth gael mynediad at y gwasanaeth. Mae'r canlyniadau'n datgelu mai dim ond 5.4% o bobl ag anableddau a ddaeth ar draws rhai rhwystrau, sy'n awgrymu bod archifau Cymraeg yn gyffredinol yn lleoliadau hygyrch.

**Cynrychiolaeth o bobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig**

5.47 Dim ond ar gyfer sectorau'r celfyddydau, archifau a threftadaeth y mae tystiolaeth sy'n ymwneud â chynrychiolaeth pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ar gael.

*Celfyddydau*

5.48 Fel y disgrifir yn y paragraff uchod, mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn casglu dwy set o ddangosyddion ynghylch cynrychiolaeth pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn sector y celfyddydau, h.y., (i) nifer y digwyddiadau a sesiynau cyfranogol gan sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru wedi'i anelu'n benodol at ymgysylltu â'r grŵp hwn a (ii) y gyfran o weithwyr ac aelodau bwrdd nad ydynt yn wyn mewn sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru. Cesglir data o'r fath yn flynyddol drwy arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru. Fodd bynnag, dim ond ar gyfer y blynyddoedd 2019/20 a 2018/19 y mae ffigurau manwl ar gael, wrth i Gyngor Celfyddydau Cymru ryddhau set ddata agored yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer monitro cydraddoldeb

---

[91] Ar gael yn: [A range of resources for the record keeping sector — Archives & Records Association]

yn sector y celfyddydau, a gafwyd o arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru a ffynonellau perthnasol eraill. Mae'r ddau dabl isod yn cyflwyno'r metrigau hyn.

**Tabl 5.12: Canran y digwyddiadau a sesiynau cyfranogol sydd wedi'u hanelu at ymgysylltu â phobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, fesul math o ddigwyddiad neu sesiwn gyfranogol.**

| Math o ymgysylltiad | Math o sesiwn | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|---|
| Digwyddiadau | Arddangosfeydd | 9.2% | 0% |
| | Dangosiadau ffilm | 1.7% | 0.7% |
| | Perfformiadau mewn lleoliadau cyflwyno | 0.8% | 1.8% |
| | Perfformiadau gan gwmnïau teithiol | 0.3% | 0.1% |
| Sesiynau cyfranogol | Plant a phobl ifanc | 2.6% | 1.8% |
| | Mynediad agored | 6.1% | 7.9% |

Ffynhonnell: Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru

5.49 Gwelwyd twf sylweddol yn y gyfran o arddangosfeydd a anelwyd at ymgysylltu ag unigolion heb fod yn wyn rhwng y ddwy flynedd, o ddim arddangosfeydd yn 2018/19, i bron i un o bob deg arddangosfa a dargedodd y ddemograffeg hon yn 2019/20. I'r gwrthwyneb, ni welwyd unrhyw newidiadau sylweddol mewn mathau eraill o ddigwyddiadau a sesiynau cyfranogol o ran eu ffocws ar ymgysylltu â chyfranogwyr heb fod yn wyn.

5.50 Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno canran y gweithwyr Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ymhlith gweithwyr ac aelodau bwrdd sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru.

**Tabl 5.13: Cyfran o weithwyr ac aelodau bwrdd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.**

| | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| Gweithwyr | 4.6% | 5.2% |
| Aelodau'r bwrdd | 4.9% | 4.2% |

Ffynhonnell: Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru

5.51 Mae Cyfrifiad 2021 SYG yn nodi bod 6.2% o boblogaeth Cymru mewn categorïau grwpiau ethnig heblaw 'Gwyn'. Mae hyn yn dangos bod pobl heb fod yn wyn wedi'u tangynrychioli ymhlith gweithwyr ac aelodau bwrdd yn 2018/19 a 2019/20.

*Archifau*

5.52 Dangosodd arolwg 2022 a gynhaliwyd gan CIPFA ar ymwelwyr ag archifau'r DU[92] mai dim ond 3.4% o unigolion a ymwelodd ag archifau Cymru a nododd nad oeddent yn wyn. Ni ellir dehongli'r ffigur hwn o'i gymharu â chanran trigolion Cymru nad ydynt yn wyn, gan nad trigolion Cymru yn unig sy'n ymweld ag archifau Cymru.

*Treftadaeth*

5.53 Dengys arolygon tymor brig[93] a thymor ysgwydd[94] a gynhelir o bryd i'w gilydd gan Cadw fod cyfran ymwelwyr â safleoedd treftadaeth nad oeddent yn wyn fel yr adroddir yn y tabl isod.

**Tabl 5.14: Cyfran o ymwelwyr treftadaeth heb fod yn wyn yn ystod y tymor brig ac ysgwydd.**

| | 2022 | 2018 | 2015 |
|---|---|---|---|
| Tymor brig | 3% | 3% | 4% |
| Tymor ysgwydd | - | 5% | 4% |

Ffynhonnell: Arolygon Ymwelwyr Tymor Brig ac Ysgwydd Cadw

5.54 Fel y nodir yn y paragraff uchod ynghylch ymwelwyr archifau, efallai nad yw'n gywir dod i gasgliadau sydd wedi'u seilio'n unig ar gymhariaeth rhwng y ganran o ymwelwyr treftadaeth heb fod yn wyn a'r gyfran o drigolion heb fod yn wyn yng Nghymru, gan fod cyfran sylweddol o ymwelwyr treftadaeth o'r tu allan i Gymru.

**Prawfesur gwledig**

5.55 O fewn cwmpas y chwiliad hwn, nid oes unrhyw ffynonellau data sy'n darparu tystiolaeth ar ymgysylltu â gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol unigolion a chymunedau mewn ardaloedd gwledig.

[92] Ar gael yn: A range of resources for the record keeping sector — Archives & Records Association
[93] Ar gael yn: Ymchwil | Cadw (llyw.cymru)
[94] Ar gael yn: Ymchwil | Cadw (llyw.cymru)

# 6. Bylchau a chyfyngiadau tystiolaeth

6.1 Mae’r adran hon yn crynhoi’r bylchau a’r cyfyngiadau mwyaf perthnasol a geir yn y data sydd ar gael ar gyfer y pum is-sector diwylliannol. Ar gyfer pob is-sector, amlinellir y prif fylchau a chyfyngiadau mewn perthynas â ffynonellau data allweddol, yn ogystal ag ar gyfer y tri phrif fesur – gweithlu, defnyddwyr/ ymwelwyr/ mynychwyr, a sefydliadau – a’r blaenoriaethau polisi. Ymhellach, darperir dadansoddiad o’r prif gyfyngiadau sy’n gysylltiedig â’r ddwy ffynhonnell ddata traws-sector, sef ystadegau Arolwg Cenedlaethol Cymru a DCMS.

**Amgueddfeydd**

| **Bylchau a phrif gyfyngiadau ffynonellau data allweddol** | |
|---|---|
| Sbotolau ar Amgueddfeydd | • Roedd gan rifyn diweddaraf yr arolwg hwn[95] gyfradd ddychwelyd o 53% ar gyfanswm amcangyfrifedig o amgueddfeydd Cymru a 78% ar yr is-set o amgueddfeydd achrededig, sy’n awgrymu bod hwn yn sampl cynrychioliadol o amgueddfeydd Cymru. Fodd bynnag, wrth arsylwi ar ystadegau megis cyfanswm yr ymwelwyr neu gyfanswm y gweithwyr, rhaid cofio nad yw'r ffigurau hyn yn cwmpasu'r holl sector amgueddfeydd yng Nghymru. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, fod gwir gyfanswm nifer yr ymwelwyr i amgueddfeydd Cymru yn uwch na’r ffigwr a ddarparwyd yn yr adroddiad.<br>• Cynhaliwyd arolwg Sbotolau bob 4 i 5 mlynedd ers 2002. Byddai amlder uwch yn well, yn ogystal â sicrhau bod yr amser rhwng diweddariadau arolygon yn cael ei bennu er mwyn gallu cymharu cyfnodau adrodd yn haws. |
| Gweithlu | • Nid oes unrhyw ddata ar gael ar nodweddion demograffig y gweithlu ac enillion. |
| Defnyddwyr / Ymwelwyr / Mynychwyr | • Ni nodwyd unrhyw fylchau mawr o ran y pwnc hwn. |
| Sefydliadau | • Nid oes unrhyw ddata ar gael am amgueddfeydd heb eu hachredu nad ydynt yn y broses o ennill yr achrediad, |

[95]Ar gael yn: Sbotolau ar amgueddfeydd 2020 | LLYW.CYMRU

| | |
|---|---|
| | felly mae darlun cyflawn o holl amgueddfeydd Cymru ar goll. |
| Effaith amgylcheddol a datgarboneiddio | • Ni chanfuwyd unrhyw ddata ar y pwnc hwn o fewn cwmpas y chwiliad. |
| Digideiddio a sgiliau digidol | • Nid oes unrhyw ddata ar gael ar sgiliau digidol y gweithlu. |
| Yr Iaith Gymraeg | • Ni chanfuwyd unrhyw ddata ar y pwnc hwn o fewn cwmpas y chwiliad. |
| Effeithiau ar lesiant | • Mae arolwg Sbotolau yn cynnwys cwestiynau i asesu effaith amgueddfeydd ar lesiant ymwelwyr, ond dim ond is-set bach o ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi defnyddio'r pecyn cymorth a awgrymwyd. |
| Cyfrannu at yr economi | • Mae Sbotolau ar Amgueddfeydd 2020 yn darparu gwybodaeth am effaith economaidd amgueddfeydd ar economïau lleol, ond cynrychiolir y wybodaeth hon gan un ffigur (£134 miliwn[96]) sy'n ymwneud â gwariant ymwelwyr, ac sy'n tybio bod holl ymwelwyr amgueddfeydd yn bobl leol. Byddai'n ddiddorol gweld dadansoddiad o'r ffigur hwn, yn ogystal ag amcangyfrif o wariant ymwelwyr sydd hefyd yn ystyried ymwelwyr nad ydynt yn lleol (ymwelwyr dydd a rhai dros nos). Yn ogystal, byddai'n addysgiadol gwybod beth yw'r cyfraniad cyffredinol i'r economi leol, gan gynnwys, er enghraifft, yr effaith ar gyflogaeth. |
| Hyrwyddo amrywiaeth / cynhwysiant ac ymgysylltu â grwpiau nodweddion gwarchodedig | • Mae 'dangosydd canlyniadau' Arolwg Cenedlaethol Cymru yn darparu'r posibilrwydd o ddadansoddi'r dangosydd presenoldeb yn ôl tair nodwedd warchodedig, sef oedran, rhyw ac anabledd (e.e., % yr ymatebwyr benywaidd a ymwelodd ag amgueddfa o leiaf unwaith yn y flwyddyn flaenorol o'i gymharu â % yr ymatebwyr gwrywaidd yn yr un categori). Nid yw'r 6 nodwedd warchodedig arall wedi'u cynnwys.<br>• Mae arolwg Sbotolau yn casglu data ar amgueddfeydd a aeth i'r afael â chydraddoldebau trwy arddangosfeydd, |

[96] Amcangyfrifir y ffigur hwn drwy Becyn Cymorth Effaith Economaidd AIM 2019 ac ni fwriedir iddo gael ei gymharu â ffigur GYC ar gyfer y sector amgueddfeydd a ddarparwyd gan ystadegau DCMS. Am fwy o fanylion gweler paragraff 5.31.

| | |
|---|---|
| | digwyddiadau a gweithgareddau wedi'u targedu. Fodd bynnag, cyflwynir y data yn yr adroddiad ar ffurf graffigol nad yw'n caniatáu echdynnu ffigurau penodol. |
| Cynrychiolaeth o bobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig | • Mae arolwg Sbotolau yn casglu data ar amgueddfeydd a drefnodd arddangosfeydd, digwyddiadau a gweithgareddau gyda’r nod o ymgysylltu ag unigolion heb fod yn wyn, ond mae’r adroddiad yn cyflwyno’r data hyn ar ffurf graffigol nad yw’n caniatáu echdynnu ffigurau penodol. |
| Prawfesur gwledig | • Ni chanfuwyd unrhyw ddata ar y pwnc hwn o fewn cwmpas y chwiliad. |

**Llyfrgelloedd**

| **Bylchau a phrif gyfyngiadau ffynonellau data allweddol** | |
|---|---|
| Bylchau cyffredinol | • Nid oes unrhyw gasglu data systematig i lyfrgelloedd nad ydynt yn gyhoeddus (h.y., llyfrgelloedd nad ydynt yn cael eu rheoli gan awdurdodau lleol). Yn ôl set ddata weledol CILIP Cymru o lyfrgelloedd yng Nghymru [97], mae llyfrgelloedd nad ydynt yn gyhoeddus yn cyfrif am dros 26% o gyfanswm y llyfrgelloedd. |
| Adroddiadau Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus | • Mae Adroddiadau Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus mwyaf diweddar [98] – a gyflwynwyd gan bob awdurdod lleol yn unol â Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020[99] – yn darparu gwybodaeth am y flwyddyn 2019/20. Yn dilyn hynny, oherwydd y pandemig Covid-19 a'r ffaith bod llyfrgelloedd cyhoeddus wedi cau ac amhariadau ar wasanaethau o ganlyniad, nid oedd yn ymarferol bwrw ymlaen â'r ymarfer adrodd blynyddol arferol ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Yn lle hynny, mae adroddiad arbennig sy'n cwmpasu'r holl awdurdodau lleol wedi'i ryddhau ar gyfer y cyfnod 2020/21.[100] Mae'r adroddiad diwygiedig hwn yn canolbwyntio mwy ar gasglu gwybodaeth ansoddol a phrofiad cwsmeriaid llyfrgelloedd. Ni ellir cymharu'r data yn yr adroddiad hwn yn uniongyrchol â blynyddoedd blaenorol. |

[97] Ar gael yn: Libraries in Wales - CILIP: the library and information association
[98] Ar gael yn: Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2019 i 2020 | LLYW.CYMRU
[99]Ar gael yn: Mesur y gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus: ein safonau | LLYW.CYMRU
[100]Ar gael yn: Adroddiad llyfrgelloedd Cymru: 2020 i 2021 | LLYW.CYMRU

| | |
|---|---|
| Astudiaeth o weithlu gwybodaeth y DU | • Mae astudiaeth 2015 a gynhaliwyd gan CILIP ac ARA ar y gweithlu gwybodaeth yn y DU[101] yn darparu data ar enillion a statws swyddi gweithwyr llyfrgell. Fodd bynnag, mae rhifyn 2023 o'r un adroddiad[102] yn cyflwyno'r data a gasglwyd o'r arolwg newydd mewn modd nad yw'n caniatáu arsylwi ar ffigurau penodol yn ymwneud â'r sector llyfrgelloedd yng Nghymru. Yn y rhifyn hwn, mae'r data'n cael ei ddadansoddi fesul sector neu ranbarth, ond byth y ddau ar yr un pryd, gan ei gwneud hi'n amhosib deall maint gweithlu llyfrgelloedd Cymru. |
| Gweithlu | • Nid yw cyfanswm y gweithwyr ar gael. Hyd yn oed wrth ganolbwyntio ar lyfrgelloedd cyhoeddus yn unig, nid yw Adroddiadau Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn datgelu union gyfrif y gweithwyr cyflogedig - rhywbeth y maent yn ei wneud yn achos gwirfoddolwyr. Yn hytrach, mae'r adroddiadau'n darparu dangosydd 'ie/na' ar gyfer pob awdurdod lleol[103], nad yw'n caniatáu i ni gyfrifo cyfanswm nifer y gweithwyr neu CALl. Mae hyn yn rhwystro dealltwriaeth o faint gwirioneddol gweithlu'r llyfrgelloedd.<br>• Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael am nodweddion demograffig y gweithlu. |
| Defnyddwyr / Ymwelwyr / Mynychwyr | • Ni nodwyd unrhyw fylchau mawr o ran y pwnc hwn. |
| Sefydliadau | • Mae set ddata weledol CILIP Cymru o lyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu rhestr eithaf cynhwysfawr o lyfrgelloedd cyhoeddus a rhai nad ydynt yn gyhoeddus yng Nghymru, ynghyd â'u cyfesurynnau a'u gweithredwyr daearyddol. Fodd bynnag, o gymharu ag Adroddiadau Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus, daw'n amlwg bod y rhestr |

[101]Mae'r astudiaeth ar gael fel 'Adroddiad Gweithlu 2015' yn: A range of resources for the record keeping sector — Archives & Records Association
[102] Mae'r astudiaeth ar gael fel 'Adroddiad Gweithlu 2022' yn: A range of resources for the record keeping sector — Archives & Records Association
[103] Yn benodol, mae pob awdurdod lleol yn adrodd a yw wedi cyflawni cyfanswm lefel staffio ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell o 3.6 cyfwerth ag amser llawn (CALI) fesul 10,000 o boblogaeth breswyl.

| | |
|---|---|
| | yn anghyflawn. Er enghraifft, nid yw set ddata CILIP Cymru yn nodi unrhyw lyfrgelloedd cyhoeddus o dan Gyngor Abertawe. |
| Effaith amgylcheddol a datgarboneiddio | • Ni chanfuwyd unrhyw ddata ar y pwnc hwn o fewn cwmpas y chwiliad. |
| Digideiddio a sgiliau digidol | • Nid oes unrhyw ddata ar gael ar sgiliau digidol gweithlu'r llyfrgelloedd. |
| Yr Iaith Gymraeg | • Nid oes unrhyw ddata ar gael ar gyfran y gweithwyr llyfrgell sy'n siarad Cymraeg. |
| Effeithiau ar lesiant | • Ni nodwyd unrhyw fylchau mawr yn y pwnc hwn y gellid yn rhesymol mynd i'r afael â hwy. |
| Cyfrannu at yr economi | • Ni chanfuwyd unrhyw ddata ar y pwnc hwn o fewn cwmpas y chwiliad. |
| Hyrwyddo amrywiaeth / cynhwysiant ac ymgysylltu â grwpiau nodweddion gwarchodedig | • Ni chanfuwyd unrhyw ddata ar y pwnc hwn o fewn cwmpas y chwiliad. |
| Cynrychiolaeth o bobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig | • Ni chanfuwyd unrhyw ddata ar y pwnc hwn o fewn cwmpas y chwiliad. |
| Prawfesur gwledig | • Ni chanfuwyd unrhyw ddata ar y pwnc hwn o fewn cwmpas y chwiliad. |

**Archifau**

| Bylchau a phrif gyfyngiadau ffynonellau data allweddol | |
|---|---|
| Arolwg Ymwelwyr ag Archifau y DU | • Ni nodwyd unrhyw fylchau mawr yn y ffynhonnell ddata hon. |
| Astudiaeth o weithlu gwybodaeth y DU | • Mae astudiaeth 2015 a gynhaliwyd gan CILIP ac ARA ar y gweithlu gwybodaeth yn y DU[104] yn darparu data ar enillion a statws swyddi gweithwyr archifau. Fodd bynnag, mae rhifyn 2023 o'r un adroddiad[105] yn cyflwyno'r data a gasglwyd o'r arolwg newydd mewn modd nad yw'n caniatáu arsylwi ar ffigurau penodol yn ymwneud â'r sector archifau yng Nghymru. Yn y rhifyn hwn, mae'r data'n cael ei ddadansoddi fesul sector neu ranbarth, ond byth y ddau ar yr un pryd, sy'n ei gwneud hi'n amhosib deall maint gweithlu archifau Cymru. |
| Gweithlu | • Yr unig wybodaeth sydd ar gael am weithlu archifau yw dosbarthiad gweithwyr ar draws bandiau cyflog a statws swyddi yn 2014/15. Nid oes data ar gael ynghylch maint cyffredinol y gweithlu archifau, nad ychwaith nodweddion demograffig, sgiliau a chymwysterau'r gweithwyr. |
| Defnyddwyr / Ymwelwyr / Mynychwyr | • Nid oes unrhyw ddata ar gael ar gyfanswm defnyddwyr yr archifau. |
| Sefydliadau | • Ni nodwyd unrhyw fylchau mawr o ran y pwnc hwn. |
| Effaith amgylcheddol a datgarboneiddio | • Ni chanfuwyd unrhyw ddata ar y pwnc hwn o fewn cwmpas y chwiliad. |
| Digideiddio a sgiliau digidol | • Ni chanfuwyd unrhyw ddata ar y pwnc hwn o fewn cwmpas y chwiliad. |
| Yr Iaith Gymraeg | • Ni chanfuwyd unrhyw ddata ar y pwnc hwn o fewn cwmpas y chwiliad. |

[104]Mae'r astudiaeth ar gael fel 'Adroddiad Gweithlu 2015' yn: A range of resources for the record keeping sector — Archives & Records Association.
[105]Mae'r astudiaeth ar gael fel 'Adroddiad Gweithlu 2022' yn: A range of resources for the record keeping sector — Archives & Records Association.

| | |
|---|---|
| Effeithiau ar lesiant | • Ni chanfuwyd unrhyw ddata ar y pwnc hwn o fewn cwmpas y chwiliad. |
| Cyfrannu at yr economi | • Ni chanfuwyd unrhyw ddata ar y pwnc hwn o fewn cwmpas y chwiliad. |
| Hyrwyddo amrywiaeth / cynhwysiant ac ymgysylltu â grwpiau nodweddion gwarchodedig | • O Arolwg Ymwelwyr ag Archifau y DU CIPFA, mae data ar gael ar y gyfran o ddefnyddwyr archifau yn ôl 5 nodwedd warchodedig, sef: oedran, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd a hil. Nid oes data ar gael am y 4 nodwedd warchodedig sy'n weddill.<br>• Nid oes unrhyw ddata ar gael ar fentrau sy'n anelu at hyrwyddo amrywiaeth / cynhwysiant ac ymgysylltu â grwpiau nodweddion gwarchodedig. |
| Cynrychiolaeth o bobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig | • Nid oes unrhyw ddata ar gael ar fentrau sy'n anelu at hyrwyddo cynrychiolaeth ac ymgysylltiad pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. |
| Prawfesur gwledig | • Ni chanfuwyd unrhyw ddata ar y pwnc hwn o fewn cwmpas y chwiliad. |

**Treftadaeth**

| **Bylchau a phrif gyfyngiadau ffynonellau data allweddol** | |
|---|---|
| Bylchau cyffredinol | • Mae diffyg casglu data systematig ar y gweithlu treftadaeth. |
| Arolygon Ymwelwyr Cadw | • Ni nodwyd unrhyw fylchau neu gyfyngiadau mawr o ran y ffynhonnell ddata hon. |
| Gweithlu | • Yr unig wybodaeth sydd ar gael yw nifer y gweithwyr a gyflogir gan Cadw, yn hytrach na'r sector cyfan. Mae’r ffigurau eraill a gyflwynir yn y tabl yn seiliedig ar amcangyfrifon ar gyfer y sector ‘amgylchedd hanesyddol’ cyfan.<br>• Nid oes unrhyw ddata ar gael ynglŷn â nodweddion demograffig, enillion, sgiliau a chymwysterau’r gweithwyr. |
| Defnyddwyr / Ymwelwyr / Mynychwyr | • Ni nodwyd unrhyw fylchau mawr o ran y pwnc hwn. |
| Sefydliadau | • Ni nodwyd unrhyw fylchau mawr o ran y pwnc hwn. |
| Effaith amgylcheddol a datgarboneiddio | • Ni chanfuwyd unrhyw ddata ar y pwnc hwn o fewn cwmpas y chwiliad. |
| Digideiddio a sgiliau digidol | • Ni chanfuwyd unrhyw ddata ar y pwnc hwn o fewn cwmpas y chwiliad. |
| Yr Iaith Gymraeg | • Ni chanfuwyd unrhyw ddata ar y pwnc hwn o fewn cwmpas y chwiliad. |
| Effeithiau ar lesiant | • Ni chanfuwyd unrhyw ddata ar y pwnc hwn o fewn cwmpas y chwiliad. |
| Cyfrannu at yr economi | • Mae’r ffigur GYC a ddarparwyd gan adroddiad ECOTEC 2010[106]yn cyfeirio at y sector ‘amgylchedd hanesyddol’ cyfan, sydd â chwmpas ehangach na’r sector treftadaeth (fel y’i diffinnir gan yr asedau a’r gweithgareddau o dan gylch gwaith Cadw). O |

[106]Ar gael yn: Ymchwil | Cadw (llyw.cymru)

| | |
|---|---|
| | ganlyniad, mae'r ffigur hwn yn goramcangyfrif GYC gwirioneddol y sector treftadaeth. |
| Hyrwyddo amrywiaeth / cynhwysiant ac ymgysylltu â grwpiau nodweddion gwarchodedig | • Mae 'dangosydd canlyniadau' Arolwg Cenedlaethol Cymru yn darparu'r posibilrwydd o ddadansoddi'r dangosydd presenoldeb yn ôl tair nodwedd warchodedig, sef oedran, rhyw ac anabledd (e.e., % yr ymatebwyr benywaidd a ymwelodd â safle treftadaeth o leiaf unwaith yn y flwyddyn flaenorol o'i gymharu â % yr ymatebwyr gwrywaidd yn yr un categori) .Yn ogystal, mae Arolygon Ymwelwyr Cadw[107] yn darparu dosbarthiad oedran a rhyw ymwelwyr i safleoedd treftadaeth. Nid yw'r 6 nodwedd warchodedig sy'n weddill wedi'u cynnwys.<br>• Nid oes unrhyw ddata ar gael ar fentrau sy'n anelu at hyrwyddo amrywiaeth / cynhwysiant ac ymgysylltu â grwpiau nodweddion gwarchodedig. |
| Cynrychiolaeth o bobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig | • Nid oes unrhyw ddata ar gael ar fentrau sy'n anelu at hyrwyddo cynrychiolaeth ac ymgysylltiad pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. |
| Prawfesur gwledig | • Ni chanfuwyd unrhyw ddata ar y pwnc hwn o fewn cwmpas y chwiliad. |

[107] Ar gael yn: Ymchwil | Cadw (llyw.cymru)

**Celfyddydau**

| Bylchau cyffredinol a phrif gyfyngiadau ffynonellau data allweddol | |
|---|---|
| Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru | • Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru yw'r brif ffynhonnell ar gyfer yr holl ddata sy'n ymwneud â'r gweithlu yn yr adroddiad hwn a'r rhan fwyaf o'r data a gyflwynir yn yr adran<br>• Blaenoriaethau Polisi. Mae'n bwysig nodi bod yr holl wybodaeth a dynnwyd o arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru yn ymwneud yn benodol â'r is-set o 67 o sefydliadau sy'n derbyn cyllid grant refeniw craidd gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Nid yw'r arolwg hwn yn cwmpasu holl sector y celfyddydau yng Nghymru, ac felly, dylid dehongli'r data o fewn cyd-destun y cwmpas cyfyngedig hwn. |
| Arolwg Omnibws Cymru – Cymryd rhan yn y Celfyddydau | • Ni nodwyd unrhyw fylchau neu gyfyngiadau mawr o ran y ffynhonnell ddata hon. |
| Gweithlu | • Nid oes unrhyw ddata ar gael ar enillion, sgiliau a chymwysterau'r gweithlu. |
| Defnyddwyr / Ymwelwyr / Mynychwyr | • Ni nodwyd unrhyw fylchau mawr o ran y pwnc hwn. |
| Sefydliadau | • Nid yw nifer y sefydliadau yn y sector celfyddydau yng Nghymru – a ddiffinnir fel sector 'Celfyddydau' gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel rhan o'i 'Sector Diwylliannol' – ar gael. Am drafodaeth fanwl o'r cwestiwn, gweler paragraff 4.10. |
| Effaith amgylcheddol a datgarboneiddio | • Nid oes unrhyw ddata ar gael ar effaith amgylcheddol sefydliadau yn y sector celfyddydau. Fodd bynnag, darperir gwybodaeth am rai mentrau cynaliadwyedd amgylcheddol a fabwysiadwyd gan sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru, megis y gyfran o sefydliadau sydd â System Monitro Amgylcheddol ar hyn o bryd. |
| Digideiddio a sgiliau digidol | • Nid oes unrhyw ddata ar gael ar sgiliau digidol y gweithlu. |

| | |
|---|---|
| Yr Iaith Gymraeg | • Ni chanfuwyd unrhyw ddata ar y pwnc hwn o fewn cwmpas y chwiliad. |
| Effeithiau ar lesiant | • Ni chanfuwyd unrhyw ddata ar y pwnc hwn o fewn cwmpas y chwiliad. |
| Cyfrannu at yr economi | • Ni nodwyd unrhyw fylchau mawr o ran y pwnc hwn. |
| Hyrwyddo amrywiaeth / cynhwysiant ac ymgysylltu â grwpiau nodweddion gwarchodedig | • Ni nodwyd unrhyw fylchau mawr o ran y pwnc hwn. |
| Cynrychiolaeth o bobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig | • Ni nodwyd unrhyw fylchau mawr o ran y pwnc hwn. |
| Prawfesur gwledig | • Ni chanfuwyd unrhyw ddata ar y pwnc hwn o fewn cwmpas y chwiliad. |

**Ffynonellau data traws-sector**

6.2 Mae'r adran hon yn amlinellu'r bylchau a'r cyfyngiadau allweddol sy'n gysylltiedig â'r ddwy ffynhonnell ddata sy'n darparu gwybodaeth yn gyson ar draws pob un o'r pum is-sector, yn hytrach na chanolbwyntio ar is-sector penodol, fel y ffynonellau yn adrannau blaenorol y bennod hon. Y ddwy ffynhonnell dan sylw yw Arolwg Cenedlaethol Cymru ac Amcangyfrifon Economaidd Sectorau DCMS.

***Arolwg Cenedlaethol Cymru***

6.3 Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn ffynhonnell ddata hynod ddefnyddiol, sy'n rhoi cipolwg ar brofiadau a chysylltiadau dinasyddion Cymru â'r celfyddydau a diwylliant. Mae'r arolwg hwn yn casglu data nid yn unig ar ganran yr unigolion sy'n ymgysylltu â'r celfyddydau a diwylliant ar draws y pum is-sector ond hefyd ar amlder ymgysylltu, cymhellion, rhwystrau, boddhad, ac agweddau cyffredinol tuag at y celfyddydau a diwylliant. Fodd bynnag, un cyfyngiad ar y ffynhonnell ddata hon yw'r

anghysondeb wrth ofyn cwestiynau sy’n ymwneud â diwylliant dros amser ac ar draws is-sectorau.

6.4 Er enghraifft, dim ond yn yn 2017/18 a 2019/20 y gofynnwyd y prif gwestiwn ar bresenoldeb (e.e., "Ydych chi wedi ymweld ag amgueddfa yn y 12 mis diwethaf?") ar gyfer pob sector. Yn 2020/21, gofynnwyd y cwestiwn eto, ond dim ond ynghylch ymweliadau ag amgueddfeydd, mynychu digwyddiadau celfyddydol, a chyfranogiad mewn gweithgareddau celfyddydol. Yn yr un modd, ar ôl 2017/18, ni ofynnwyd cwestiynau wedi’u hanelu at ymchwilio i’r prif rwystrau i gael mynediad at y celfyddydau a diwylliant (e.e., “A oes unrhyw resymau penodol pam na wnaethoch ymweld ag amgueddfa yng Nghymru yn ystod y 12 mis diwethaf?").

6.5 Er mwyn cael dealltwriaeth fwy cynhwysfawr ac amserol o ymgysylltiad dinasyddion Cymru â'r celfyddydau a diwylliant, byddai'n fuddiol cael set gyson o gwestiynau ar gyfer pob is-sector diwylliannol a ofynnir yn flynyddol. Byddai cysondeb o'r fath yn galluogi dadansoddiad mwy trylwyr o'r data ac yn hwyluso gwell dealltwriaeth o ymgysylltiad dinasyddion Cymru â'r celfyddydau a diwylliant.

***Amcangyfrifon Economaidd Sectorau DCMS***

6.6 Ar gyfer cwmpas y dadansoddiad hwn, mae gan Amcangyfrifon Economaidd Sectorau DCMS ddau brif gyfyngiad:

- Mae'r sectorau DCMS yn cael eu categoreiddio drwy ddefnyddio codau SIC07 4 digid. Ar y lefel hon o ronynnedd, mae'r sectorau llyfrgelloedd ac archifau wedi'u cronni o dan yr un cod SIC07. Mae hyn yn atal echdynnu ffigurau sector-benodol.
- Mewn ystadegau cyflogaeth a GYC, mae data sy'n ymwneud â'r sector treftadaeth yn aml yn cael ei atal er mwyn sicrhau cyfrinachedd gwybodaeth yr ymatebwyr. O ganlyniad, nid yw gwybodaeth fanwl am y sector treftadaeth ar gael yn rhwydd.